



Home Office

Gweithredu yn Erbyn Casineb

**Cynllun Llywodraeth y Deyrnas Unedig
i drechu troseddau casineb**

Gorffennaf 2016



© Hawlfraint y Goron 2016

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn HateCrimePolicy@homeoffice.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref	5
Pennod 1 – Ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb	8
Pennod 2 – Crynodeb Gweithredol	9
Pennod 3 – Cyflwyniad	12
Diffiniad o droseddau casineb	12
Amlygrwydd troseddau casineb	13
Cynnydd wrth ymdrin â throseddau casineb	20
Cynllun ar gyfer ymdrin â throseddau casineb	21
Pennod 4 – Cynllun ar gyfer ymdrin â throseddau casineb	22
Atal Troseddau Casineb	22
Ymateb i droseddau casineb yn ein cymunedau	24
Cynyddu'r nifer o adroddiadau am droseddau casineb	30
Gwella'r gefnogaeth i ddiodefswyr troseddau casineb	34
Cynyddu ein dealltwriaeth o droseddau casineb	35
Atodiad A – Beth yw troseddau casineb?	37
Deddfwriaeth sy'n bodoli	37

Rhagair: Ysgrifennydd Cartref



Nid oes lle i droseddau casineb o unrhyw fath, wedi eu hanelu at unrhyw gymuned, hil na chrefydd yn ein cymdeithas o gwbl. Rwyf yn falch o gyhoeddi'r cynllun gweithredu hwn i nodi sut y bydd y Llywodraeth yn ymdrin â'r troseddau cynhennus hyn yn ystod y pedair blynedd nesaf. Gyda'i gilydd mae'r Swyddfa Gartref, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu i atal troseddau casineb, cefnogi dioddefwyr, ac erlyn y tramgwyddwyr.

Cyhoeddir y cynllun hwn ar adeg pan ydym yn gweld cynnydd yn yr adroddiadau am droseddau casineb. Yn y dyddiau ar ôl refferendwm yr UE, targedwyd sarhad at rai o ddinasyddion Ewrop, ac mae cynrychiolwyr cymunedau ethnig eraill wedi rhoi adroddiadau am bryder am hinsawdd lle mae cynnydd yn yr elyniaeth sy'n cael ei chyfeirio at bobl sy'n cael eu hadnabod fel tramorwyr. Mae'n rhy gynnar i fod yn sicr pa mor gyffredin yw'r broblem, ond mae'r duedd yn un sy'n peri pryder. Mae ein hymateb yr un fath ag y mae ar gyfer unrhyw drosedd o'r fath: mae'n hollol annerbyniol i bobl ddiodef sarhad neu ymosodiadau oherwydd eu cenedligrwydd neu gefndir ethnig. Rhaid i ni sefyll gyda'n gilydd yn erbyn troseddau casineb a sicrhau eu bod yn cael eu dileu.

Mae'n galonogol mai'r ymateb cyffredinol i ddigwyddiadau o'r fath fu eu condemnio, a phwysleisio'r gwerthoedd a'r cysylltiadau sy'n ein huno. Mae dyhead gwirioneddol i ddangos cefnogaeth i'n gilydd, a dangos na all ein cymdeithas oddef digwyddiadau o'r fath.

Seilir ymrwymiad y Llywodraeth i ymdrin â throseddau casineb ar y ddeddfwriaeth sydd ymhlith y cryfaf yn y byd, sy'n amddiffyn cymunedau rhag gelyniaeth, trais a rhagfarn. Mae hyn yn cynnwys troseddau penodol ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd a throseddau ysgogi casineb ar sail hil, crefydd a thueddfryd rhywiol.

Mae'n holl bwysig i'r cyfreithiau hynny gael eu gorfodi yn gadarn. Ers dod i rym, mae'r Llywodraeth wedi gweithio gyda'r heddlu i wella ein hymateb ar y cyd i droseddau casineb. Gofynnwyd i'r heddlu sicrhau bod cofnodi troseddau casineb ar sail crefydd yn awr yn cynnwys ffydd y dioddefwr, cam a ddaeth i rym yn Ebrill 2016. Rydym hefyd wedi sefydlu hyfforddiant ar y cyd rhwng yr heddlu a staff Erllyn y Goron i wella'r ffordd y mae'r heddlu yn dynodi ac ymchwilio i droseddau casineb.

Ochr yn ochr â'r hyfforddiant hwn, mae'r Coleg Plismona, fel y corff proffesiynol dros blismona, wedi cyhoeddi strategaeth genedlaethol a chyfarwyddyd gweithredol yn y maes hwn i sicrhau bod plismona yn ymdrin â throseddau casineb yn effeithiol.

Ond mae angen i ni wneud mwy i ddeall y troseddau casineb yr ydym yn eu gweld ac ymdrin â nhw. Dyna pam ein bod yn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb newydd hwn, yn ymdrin â phob math o droseddau casineb, gan gynnwys ymosodiadau senoffobig.

Rydym wedi datblygu'r cynllun hwn mewn partneriaeth â chymunedau ac adrannau ar draws y Llywodraeth. Mae'n cynnwys camau i gynyddu'r adroddiadau a roddir am ddigwyddiadau troseddau casineb, gan gynnwys gweithio gyda chymunedau a'r heddlu i ddatblygu canolfannau adrodd trydydd parti. Mae'n cynnwys gwaith i atal troseddau casineb ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac mae'n nodi sut y byddwn yn rhoi cefnogaeth gryfach i ddiodefswyr.

Mae ein gwlad yn ffynnu am yr union reswm bod pobl o wahanol gefndiroedd, ffydd a chefnidir ethnig yn cyd-fyw mewn modd sy'n cyfoethogi. Ac mae'r cyd-fyw cyfoethog hwnnw yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei drysori ac ymdrechu i'w warchod. Trwy'r cynllun gweithredu hwn, rydym yn gobeithio cryfhau'r warchodaeth honno dros y blynyddoedd sydd i ddod, i sicrhau ein bod yn cynnal y gwerthoedd a rennir sy'n sail i'r ffordd Brydeinig o fyw.

Rhagair: Ysgrifennydd Gwladol Cymunedau a Llywodraeth Leol



Rwyf yn falch iawn o'r gwaith y mae fy adran yn ei gefnogi – ac y mae llawer o gynghorau yn arwain arno – wrth ymdrin â throseddau casineb.

Gyda'n gilydd, os byddwn yn rhoi adroddiad am bob enghraifft o droseddau casineb, gallwn eu gyrru oddi ar ein strydoedd. Nid yw goddefgarwch yn rhywbeth y gallwn ei gymryd yn ganiataol. Mae'n gonglfaen i werthoedd Prydain ac yn un o'r nifer o resymau pam ein bod yn cael ein parchu.

Dyna pam fy mod yn falch o gefnogi'r cynllun pedair blynedd sy'n nodi ymrwymiad y Llywodraeth i ymdrin â throseddau casineb. Cyfraniad fy adran yw helpu i greu'r amgylchedd sy'n atal troseddau casineb rhag digwydd yn y lle cyntaf – un o amcanion allweddol y cynllun hwn. Rydym yn gwybod mai pobl ifanc yw'r prif ddioddefwyr a'r prif dramgwyddwyr o ran troseddau casineb. I'r diben hwnnw rydym wedi gallu cyfrannu at nifer o brosiectau y cyfeirir atynt yma, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Anne Frank sy'n gweithio gyda phobl ifanc o bob cefndir i herio rhagfarn a chasineb; Streetwise, sy'n herio casineb 'didaro' fel y'i gelwir yn erbyn Mwslimiaid a gwrth-semitiaeth yng nghaeau chwarae ysgolion a Tell MAMA, sy'n monitro a chefnogi dioddefwyr casineb gwrth-Fwslimaidd.

Mae gwledydd o bob rhan o'r byd yn edrych tua'r Deyrnas Unedig i chwilio am y ffyrdd gorau o ymdrin â throseddau casineb – ond tra ein bod yn falch o'r hanes hwn, ni allwn fod yn hunanfodlon. Mae gormod o bobl yn y wlad hon yn dal i ddioddef troseddau casineb. Mae angen i ni fod yno iddyn nhw – ac mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi sut y byddwn yn gwneud hynny.

Pennod 1 – Ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb

Diben y Cynllun Gweithredu hwn

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhaglen weithredu Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ymdrin â throseddau casineb hyd Fai 2020.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu yn 2018 i sicrhau bod yr ymrwymadau ynddo yn cael eu cyflawni yn ôl y disgwyl.

Cwmpas daearyddol

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn weithredol yng Nghymru a Lloegr.

Mae *Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu* (2015) Llywodraeth Cymru yn parhau i symud camau penodol ymlaen yng Nghymru. Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Gweithredu hwn a bydd y cysylltu yn parhau ar feysydd heb eu datganoli ar draws Cymru trwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru.

Er nad yw'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys camau gweithredu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig i sicrhau bod yr arfer gorau yn cael ei rannu ar draws y Deyrnas Unedig.

Rhagor o wybodaeth

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynllun yn:

Hate Crime Action Plan

Home Office

3rd Floor Peel North West

2 Marsham Street

Llundain

SW1P 4DF

HateCrimePolicy@homeoffice.gsi.gov.uk

Hygyrchedd

Cysylltwch â'r Swyddfa Gartref (fel uchod) os ydych angen gwybodaeth ar unrhyw fformat arall, megis Braille, print bras neu sain. Gallwn hefyd gynnig fersiwn o'r Cynllun Gweithredu yn Gymraeg.

Pennod 2 – Crynodeb Gweithredol

1. Mae troseddau casineb yn cael effaith arbennig o niweidiol ar eu dioddefwyr, gan eu bod yn ymosod ar ran gynhenid o bwy ydynt neu pwy y maent yn cael eu hamgyffred i fod: eu hil, crefydd, tueddfryd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsrywiol. Cyflawnodd cynllun y Llywodraeth flaenorol i ymdrin â throseddau casineb (*Challenge It, Report It, Stop It*, 2012) welliannau gwirioneddol yn y ffordd y gellir rhoi adroddiad am droseddau casineb yn ogystal â gwella'r ddealltwriaeth yn y Gwasanaeth Heddlu o'r effaith y gall troseddau casineb ei gael ar gymunedau. Mae'r newidiadau penodol sy'n deillio o'r cynllun hwnnw yn cynnwys:
 - cyhoeddi, am y tro cyntaf, ganfyddiadau manwl o Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr am raddfa dioddefwyr troseddau casineb yng Nghymru a Lloegr;
 - gwelliant yn y modd y mae'r heddlu yn cofnodi troseddau casineb – sy'n gofyn i luoedd heddlu gasglu data ar droseddau casineb a gofnodwyd dan y pum ffrwd sy'n cael eu monitro, a chyhoeddi'r data hwnnw fel Ystadegau Swyddogol;
 - ariannu nifer o brosiectau gyda sefydliadau sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda dioddefwyr troseddau casineb dan Gronfa Dioddefwyr a Thystion y Weinyddiaeth Gyfiawnder; a
 - deddfwriaeth ddiwygiedig i gynnig gwell dedfrydu mewn ystod ehangach o droseddau, gan gynnwys, am y tro cyntaf hunaniaeth drawsrywiol dioddefwr fel ffactor waethybol.
2. Yn ôl yr Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr annibynnol, amcangyfrifwyd bod 222,000 o droseddau casineb ar gyfartaledd yn flynyddol o 2012/13 i 2014/15. Mae hyn yn ostyngiad o 56,000 ers y cyfnod blaenorol oedd yn yr arolwg. Ond, er gwaethaf cynnydd yn y nifer o droseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu – 44,471 yn 2013/14 i 52,528 yn 2014/15 – dengys y gwahaniaeth rhwng ffigyrau'r heddlu a'r arolwg troseddau bod troseddau casineb yn parhau i gael eu tan-gofnodi yn sylweddol.
3. Mae dioddefwyr troseddau casineb yn fwy tebygol o ddioddef cael eu herlid dro ar ôl tro, yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau seicolegol difrifol o ganlyniad, ac yn llai tebygol na dioddefwyr troseddau eraill o fod yn fodlon ar ymateb yr heddlu.
4. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn canolbwyntio ar bum maes allweddol i fynd i'r afael â throseddau casineb o'r dechrau i'r diwedd – o ddeall yr hyn sy'n ysgogi troseddau casineb ac ymdrin â'r hyn sy'n ei achosi i roi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr:
 - Atal troseddau casineb trwy herio credoau ac agweddau a all fod yn sail i droseddau o'r fath. Byddwn yn gweithio i roi'r offer i bobl ifanc ac athrawon i fynd i'r afael â chasineb a rhagfarn, gan gynnwys trwy raglen newydd i roi'r offer i

athrawon hwyluso sgysiau am 'bynciau anodd' a chynnal asesiad newydd o'r lefel o fwlio gwrth-semitig, gwrth-Fwslimaidd, homoffobaidd, hiliol a bwlio arall mewn ysgolion i fod yn sail i gamau pellach i leihau'r lefelau bwlio o'r fath. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid cymunedol fel Ymddiriedolaeth Anne Frank a Streetwise i gyflawni prosiectau addysgol sy'n helpu pobl ifanc i herio rhagfarn a gwahaniaethu.

- Ymateb i droseddau casineb yn ein cymunedau gyda'r nod o leihau'r nifer o ddiwyddiadau troseddau casineb. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cynllun cyllido £2.4m ar gyfer camau diogelwch mewn sefydliadau ffydd bregus, camau i fynd i'r afael â throseddau casineb ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn yr economi nos trwy roi hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a'i gwneud yn haws i roi adroddiad, a sefydlu tri phrosiect arddangos cymunedol i archwilio ffyrdd newydd o ymdrin â throseddau casineb mewn cymunedau lleol. Byddwn hefyd yn gweithredu yn erbyn troseddau casineb ar-lein, gan gynnwys seminar i weinidogion gyda chwmnïau cyfryngau cymdeithasol a gwaith creu gwrth-naratif.
- Cynyddu'r nifer o adroddiadau am droseddau casineb, trwy wella'r broses adrodd, annog defnyddio adroddiad trwy drydydd parti a gweithio gyda grwpiau a all fod yn tan-adrodd, fel pobl anabl, menywod Mwslimaidd, y gymuned Charedi, pobl drawsrywiol, cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma, a chymunedau ffoaduriaid newydd. Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i sicrhau bod y tramgwyddwyr yn cael eu cosbi, ac i roi sylw i erlyniadau llwyddiannus i annog pobl i gael yr hyder, pan fyddant yn rhoi adroddiad am droseddau casineb, y bydd gweithredu yn digwydd.
- Gwella'r gefnogaeth i ddiodefwr troseddau casineb. Byddwn yn parhau i wella'r defnydd o Ddatganiadau Personol Dioddefwyr i sicrhau bod lleisiau diodefwr troseddau casineb yn cael eu clywed. Bydd y CPS yn cynhyrchu cyfarwyddyd newydd ar ddatganiadau effaith cymunedol ar gyfer troseddau casineb, gan amlinellu y gall troseddau casineb gael effaith tu hwnt i'r diodefwr unigol ac arwain at deimladau cynyddol o fod yn ynysig neu ofn ar draws cymunedau cyfan. Ac i wella profiad tystion yn y llys, bydd y CPS yn cynnal adolygiad ar y cyd gyda'r heddlu o Unedau Gofal Tystion.
- Adeiladu ar y ddealltwriaeth o droseddau casineb trwy well data, gan gynnwys gwahanu cofnodion troseddau casineb yn ôl crefydd. Bydd ein Huned Dadansoddi Eithafiaeth yn cynnal adolygiad i rwydweithiau neo-Natsi a byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhwydweithiau a'n perthynas ag academyddion i ddynodi cyfleoedd i gydweithio, i sicrhau ein bod yn gallu dysgu o ddealltwriaeth academiaidd o droseddau casineb a'r ffyrdd i frwydro yn ei erbyn.

5. Yn sail i'r cynllun mae dwy thema allweddol – gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau a chyfuno gwaith ar draws y ffyrddau troseddau casineb i sicrhau bod yr arfer gorau wrth ymdrin â throseddau casineb yn cael ei ddeall a'i ddefnyddio yn ein holl waith.

6. Datblygwyd y camau gweithredu a ddisgrifir yn y ddogfen hon trwy drafodaethau gyda'r cymunedau hynny y mae troseddau casineb yn effeithio mwyaf arnynt. Y cymunedau hynny a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli sydd yn ymateb yn aml i droseddau casineb yn lleol, gan weithio i ymdrin â throseddau casineb yn eu hardal a rhoi cefnogaeth i ddioddefwyr.
7. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynrychioli partneriaeth rhwng y Llywodraeth, yr asiantaethau cyfiawnder troseddol (y Gwasanaeth Heddlu, y CPS, y llysoedd a'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol) a grwpiau cymunedol yn cynrychioli'r rhai y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt. Fe'i datblygwyd gyda chefnogaeth y Grŵp Cynghori Annibynnol ar droseddau casineb.
8. Bydd bwrdd prosiect yn goruchwyllo cyflawni'r Cynllun Gweithredu sy'n dwyn at ei gilydd yr asiantaethau cyfiawnder troseddol ac adrannau llywodraeth perthnasol yn ogystal â'r Grŵp Cynghori Annibynnol ar droseddau casineb.

Pennod 3 – Cyflwyniad

9. Mae troseddau casineb yn ddinistriol; maent yn anfon y neges bod rhai pobl yn haeddu cael eu targedu yn syml oherwydd pwy ydyn nhw neu pwy y credir ydyn nhw. Mae troseddau o'r fath yn cael effaith ddwfn ar ddiodefwyr oherwydd eu bod yn cael eu targedu oherwydd rhyw ran gynhenid o'u hunaniaeth (eu crefydd, hil, tueddfryd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsrywiol). Mae'r rhai sy'n cyflawni troseddau casineb hefyd yn ymosod ar y gwerthoedd sylfaenol sy'n sail i'n cymdeithas amrywiol, gwerthoedd derbyn a pharch i eraill. Trwy daenu ofn, camdriniaeth a thrais, gall troseddau casineb gyfyngu ar gyfleoedd pobl, gan eu hatal rhag mwynhau manteision llawn ein cymdeithas a gallant arwain at unigrwydd a gwahanu.
10. Gan y Deyrnas Unedig y mae un o'r fframweithiau cyfreithiol cryfaf i ymdrin â throeddau casineb yn y byd. Ond, dim ond rhan o'r ateb fydd deddfwriaeth fyth. Oni bai bod gan bobl yr hyder i ddod ymlaen, oni bai bod gan yr heddlu'r offer i ymdrin yn effeithiol â'r troseddau hyn, oni bai bod diodefwyr yn cael cefnogaeth briodol a'r tramgwyddwyr yn cael eu dwyn o flaen eu gwell, ac yn allweddol, oni bai ein bod yn gweithredu i ymdrin â'r agweddau a'r credoau sy'n gyrru'r troseddau yma, bydd gormod o bobl yn parhau i ddiodeff.

Diffiniad o droseddau casineb

11. Gall unrhyw drosedd sy'n cael ei hysgogi ar sail hil, crefydd, tueddfryd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsrywiol gael ei galw yn drosedd casineb.
12. Rhoddir crynodeb o'r ddeddfwriaeth bresennol ar droseddau casineb yn Atodiad A. Mae tri chategori o droseddau casineb yn y ddeddfwriaeth:
 - ysgogi troseddau casineb ar sail hil, crefydd neu dueddfryd rhywiol;
 - troseddau penodol a ysgogwyd gan hil a chrefydd (fel ymosodiad cyffredin); a
 - darpariaethau ar gyfer dedfrydu gwell pan fydd trosedd yn cael ei hysgogi gan hil, crefydd, tueddfryd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsrywiol.
13. Yn ychwanegol at y ddeddfwriaeth yn ymwneud â throeddau casineb, mae *Hate Crime Operational Guidance* y Coleg Plismona yn cynnwys cyfres fanwl o ddiffiniadau sy'n berthnasol i droseddau casineb. Mae'r rhain yn ymdrin ag amrywiaeth ehangach o ddiwyddiadau na'r troseddau a nodir uchod. Mae'r cyfarwyddyd yn cael ei grynhoi yn Atodiad A.
14. Mae dull y Deyrnas Unedig o ymdrin â throeddau casineb yn diogelu pawb yn gyfartal – mae gan ddiodeffwr o'r boblogaeth sydd yn y mwyafrif yr un hawliau i fyw heb ei sarhau ag sydd gan rywun o grŵp lleiafrifol. Nid yw ein cyfreithiau troseddau casineb,

er enghraifft yn rhoi blaenoriaeth i unrhyw ddiwinyddiaeth, ond yn hytrach yn cydnabod hawl pawb i gredu ac arfer y grefydd o'u dewis, heb gael eu targedu â sarhad. Mae'r un hawl yn ymestyn i'r rhai nad oes ganddynt grefydd a'r rhai a dargedir oherwydd casineb rhwng crefyddau.

Amlygrwydd troseddau casineb

15. Y ddwy brif ffynhonnell o ran amlygrwydd troseddau casineb yw'r Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW)¹ annibynnol a Throseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu. Yn ôl CSEW, roedd amcangyfrif o 222,000 o droseddau casineb ar gyfartaledd yn flynyddol rhwng 2012/13 a 2014/15. Mae hyn yn ostyngiad o 56,000 ers y cyfnod blaenorol oedd yn yr arolwg. Ar yr un pryd gwelwyd cynnydd yn y nifer o droseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu o 44,471 yn 2013/14 i 52,528 yn 2014/15. Mae'r cynnydd hwn yn y troseddau a gofnodwyd i'w groesawu gan ei fod yn debygol o fod yn adlewyrchu ar well arfer gan yr heddlu a mwy o hyder gan ddiodefwrwr wrth ddod ymlaen i roi adroddiad am droseddau. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng ffigyrau CSEW a'r ffigyrau Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn dangos nad oes adroddiadau yn cael eu rhoi am nifer sylweddol o droseddau casineb.
16. Ni allwn roi ystadegau am amllder troseddau casineb ar-lein gan fod hyn yn rhywbeth cymharol newydd i'r ffordd y mae troseddau yn cael eu cofnodi gan yr heddlu. Gwnaed 'llyman ar-lein' yn orfodol yn 2015 i'r holl lluoedd heddlu, ynghyd â diffiniad clir o droseddau ar-lein, i wella gallu lluoedd heddlu i ddynodi troseddau a gofnodwyd gydag elfen ar-lein iddynt (fel aflonyddu a throseddau casineb). Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r lluoedd heddlu i wella cysondeb ac ansawdd y data ac i bennu pryd y bydd yn barod i'w gyhoeddi.
17. Dengys y CSEW bod diodefwrwr troseddau casineb yn llai bodlon ar yr ymateb a gânt gan asiantaethau cyfiawnder troseddol mewn cymhariaeth â diodefwrwr troseddau eraill. Ar sail arolygon cyfun 2012/13 i 2014/15, roedd 52% o ddiodefwrwr troseddau casineb yn fodlon neu yn fodlon iawn ar y modd y triniwyd y mater, cyfran is na diodefwrwr troseddau yn gyffredinol yn CSEW (73%). Roedd diodefwrwr troseddau casineb hefyd yn fwy tebygol o fod yn anfodlon iawn (35%) â'r modd yr oedd yr heddlu wedi trin y mater na throseddau CSEW yn gyffredinol (14%).
18. Mae'r arolygon cyfun ar gyfer 2012/13 i 2014/15 yn dangos bod diodefwrwr troseddau casineb hefyd yn llai tebygol o feddwl bod yr heddlu wedi eu trin yn deg neu gyda pharch, mewn cymhariaeth â diodefwrwr troseddau CSEW yn gyffredinol. Er enghraifft, mewn 59% o ddigwyddiadau troseddau casineb roedd y diodefwrwr yn meddwl bod yr heddlu wedi eu trin yn deg, mewn cymhariaeth ag 81% o ddigwyddiadau troseddol yn CSEW yn gyffredinol. Yn yr un modd, mewn 79% o ddigwyddiadau troseddau casineb roedd y diodefwrwr yn meddwl bod yr heddlu wedi eu trin â pharch, mewn cymhariaeth ag 89% o ddigwyddiadau troseddol yn CSEW yn gyffredinol.

¹ Corcoran H, Lader D, Smith K, *Hate Crimes, England and Wales, 2014/15*, Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 05/15, Hydref 2015.

19. Mae data o'r CSEW yn dynodi bod dioddefwyr troseddau casineb yn fwy tebygol o fod yn 'dioddefwyr sawl tro' a hyd at bedair gwaith yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau seicolegol mwy difrifol na dioddefwyr troseddau heb eu targedu.
20. Mae data ar gael hefyd ar gyfer troseddau casineb a digwyddiadau yn y gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys Arolwg Troseddau a Chyfiawnder yr Alban ac Arolwg Troseddau Cymru Gyfan a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd yn 2013. Mae'r data yma yn dangos darlun tebyg i ffigurau CSEW o ran niferoedd y troseddau casineb a'r digwyddiadau.

Edrychodd ymchwil gan Brosiect Troseddau Casineb Caerlŷr ar effaith digwyddiadau 'arferol' fel galw enwau ac ymddygiad bygythiol a all fod mor niweidiol i les corfforol ac emosiynol:

"Yn aml y gweithredoedd mwy treisgar ac eithafol o elyniaeth a dargedir sy'n denu sylw'r cyfryngau, sylw gwleidyddol ac academaidd, tra bydd y profiad a'r niwed cynyddol sy'n deillio o ffurfiau mwy 'cyffredin' o sarhau, bwlio ac aflonyddu yn mynd heb eu cydnabod."

"Nid yn unig rydym yn cael ein targedu ar lafar ac yn cael ein hosgoi, yn cael dirmyg a chodi dau fys. Rydym hefyd yn cael rhywbeth sydd wedi symud ychydig ymhellach ac sydd ychydig yn fwy peryglus."

"Rwyf wedi cael pobl yn poeri ataf ac yn poeri ar lawr wrth i mi basio. Rydych yn gallu gweld mai dangos eu ffeidd-dod y maen nhw."

Menyw Fwslimaidd mewn fêl, a ddyfynnir ym Mhrosiect Troseddau Casineb Caerlŷr, *Findings and Conclusions*, 2014, tudalen 15

Hil

21. Mae casineb hiliol yn cyfrif am 82% o'r troseddau casineb a gofnodir gan yr heddlu, y gyfran fwyaf o'r pum ffrwd. Dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae pobl Sikh ac Iddewon yn cael eu dynodi fel aelodau o hil yn ogystal â chrefydd, a gall yr heddlu gofnodi troseddau yn eu herbyn fel rhai a ysgogir gan hiliaeth neu grefydd. I gyferbynnu â hynny, mae troseddau casineb yn cyfrif am 48% o droseddau casineb a gofnodir gan CSEW.

Hil

Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2013/14:	37,466
Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2014/15:	42,930
Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2014/15:	12,130

Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2015/16:	12,295
Deilliannau llwyddiannus yn 2014/15:	10,123
Deilliannau llwyddiannus yn 2015/16:	10,337
Cyfradd gollfarnu yn 2014/15:	83.5%
Cyfradd gollfarnu yn 2015/16:	84.1% ²
Amcangyfrif Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr:	106,000

22. Troseddau casineb hiliol yw'r ffrwd fwyaf arwyddocaol o droseddau casineb o hyd. Er bod pob trosedd casineb, beth bynnag fo'r cymhelliad, yr un mor ddychrynlyd, neilltuir mwy o adnoddau i droseddau casineb hiliol gan mai dyna'r rheswm am y nifer fwyaf o droseddau a brofir.
23. Er gwaethaf yr oruchafiaeth hon o ran niferoedd, yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Gweithredu hwn clywsom bryderon bod y drafodaeth am elyniaeth sy'n dod yn fwy amlwg fel crefydd wedi golygu bod y drafodaeth a'r ffocws cenedlaethol ar gasineb hiliol wedi lleihau. Byddwn yn gweithio gyda grwpiau fel Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol lleol i ddeall sut y gallwn sicrhau bod llais y rhai sy'n eiriol yn erbyn casineb hiliol yn cael ei glywed gan y rhai sy'n gyfrifol am ymatebion troseddau casineb cenedlaethol a lleol.

Ychydig ddyddiau ar ôl refferendwm yr UE, canfuwyd graffiti senoffobaidd ar draws drysau Cymdeithas Gymdeithasol a Diwylliannol Bwylaidd yn Hammersmith, gorllewin Llundain. Roedd y gymuned leol yn barod iawn i gynnig eu cefnogaeth i'r ganolfan trwy roddion a negeseuon, ac ymwelodd gwleidyddion amlwg, gan gynnwys gweinidogion y Llywodraeth, i addo eu cefnogaeth wrth ymdrin â throseddau casineb hiliol fel hyn.

Crefydd

24. Roedd troseddau casineb crefyddol yn cyfrif am 6% o'r troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu, ond roeddent yn cyfrif am 17% o droseddau casineb yn ôl CSEW. I roi

² Tynnwyd y data ar droseddau casineb o System Reoli Achosion y CPS (CMS) a'r System Rheoli Gwybodaeth gysylltiedig (MIS), sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn agored i gamgymeriadau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau'n rhai dros dro ac yn amodol i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei gofnodi gan y CPS. Mae'r CPS yn ymroddedig i wella ansawdd ein data ac o ganol Mehefin 2015 fe wnaethant gyflwyno trefn sicrhau ansawdd data newydd a all esbonio peth amrywio annisgwyl mewn setiau data yn y dyfodol.

Mae'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throseddau a phlisma yn cael eu cadw gan y Swyddfa Gartref a'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, dod â throseddwr i'r llys, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cadw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

darlun cliriach o droseddau casineb crefyddol, o Ebrill 2016, mae lluoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi dechrau gwahanu data ar droseddau casineb ar sail crefydd.

Crefydd

Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2013/14:	2,269
Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2014/15:	3,254
Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2014/15:	665
Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2015/16:	737
Deilliannau llwyddiannus yn 2014/15:	557
Deilliannau llwyddiannus yn 2015/16:	583
Cyfradd gollfarnu yn 2014/15:	83.8%
Cyfradd gollfarnu yn 2015/16:	79.1%
Amcangyfrif Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr:	38,000

25. Cyn i ystadegau troseddau casineb gael eu gwahanu yn ôl crefydd, mae grwpiau cymunedol wedi gweithio i gasglu eu gwybodaeth eu hunain ar amllder troseddau casineb, gan gefnogi'r heddlu a'r cymunedau i ymateb i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg.
26. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad yw gwrth-semitiaeth wedi cael ei gymryd mor ddifrifol â throseddau casineb arall bob amser mewn rhai rhannau o gymdeithas. Boed yn dod o gyfeiriad y dde eithaf, y chwith eithaf, eithafwyr Islamaidd neu unrhyw ran o gymdeithas, rhaid iddo gael ei ddeall fel yr hyn ydyw – a'i herio.
27. Nododd *Adroddiad Digwyddiadau Gwrth-semitig 2015* yr Ymddiriedolaeth Ddiogelwch Gymunedol bod adroddiad am 924 digwyddiad gwrth-semitig wedi ei roi iddynt yn y flwyddyn galendr 2015. Dyma'r trydydd cyfanswm uchaf a gofnodwyd erioed gan yr Ymddiriedolaeth ac mae'n cynnwys 86 o ymosodiadau treisgar gwrth-semitig.³

Llundain, Mawrth 2015: Stopiwyd dyn Iddewig yn y stryd gan rai oedd mewn car yn pasio a ofynnodd iddo am gyfarwyddiadau i gyrraedd rhywle. Pan ddechreuodd y dyn ateb, galwodd un o'r rhai oedd yn y car, oedd yn ymddangos ei fod o Dde Ewrop, ef yn "f**king dirty Jew" a thafllu wyau ato.

³ Ymddiriedolaeth Ddiogelwch Gymunedol, *Adroddiad Digwyddiadau Gwrth-semitig 2015*, Chwefror 2016, ar gael yn: https://cst.org.uk/data/file/1/9/Incidents_Report_2015.1454417905.pdf

Manceinion, Mai 2015: Gwelwyd dyn yn gwneud y saliwat natsïaidd ac yn gweiddi "Heil Hitler" yn gyhoeddus. Pan aeth Iddew oedd yn digwydd pasio ato i brotestio, ailadroddodd y tramgwyddwr y saliwat cyn rhoi dyrnod i'r dioddefwr ddwywaith, gan ei daro i'r llawr.

Llundain, Gorffennaf 2015: Roedd pum merch Iddewig 14 oed ac yn gwisgo gwisg ysgol Iddewig mewn canolfan siopa ac yna aethant ar y bws i fynd adref. Dilynodd tair o ferched gwynion o oedran tebyg nhw i'r bws a'u galw yn "Jew b*tches" cyn rhoi dyrnod i un o'r merched Iddewig yn ei phen a chicio un arall.

CST, *Adroddiad Digwyddiadau Gwrth-semitig 2015*, Chwefror 2016, tudalen 16

28. Mae casineb gwrth-Fwslimaidd yr un mor annerbyniol yn ein cymdeithas. Mae'r unigolion a sefydliadau hynny sy'n creu ofn yn ein cymunedau Mwslimaidd ac yn gwneud i bobl eu hofni yn gywilydd ar ein cymdeithas – ac nid yw'r modd y maent yn ysgogi casineb ac yn demoneiddio Islam yn addas yn y Brydain fodern. Rhyddid i lefaru, rhyddid i addoli, democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, a hawliau cyfartal sy'n ein diffinio fel cymdeithas. Rydym yn benderfynol o hybu'r gwerthoedd yma yn weithredol, gan weithio mewn partneriaeth gyda phob cymuned ffydd i ddangos yr hyn sydd gennym yn gyffredin fel yr amddiffynfa orau rhag eithafwyr a fyddai'n ceisio ein rhannu.
29. Mae ystadegau gan Tell MAMA yn dangos bod adroddiad am 2,317 o ddigwyddiadau o gasineb gwrth-Fwslimaidd wedi cael eu derbyn a'u gwirio ganddynt (gan gynnwys adroddiadau a rannwyd gan yr Heddlu) rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2015 mewn cymhariaeth â 599 yn 2014. Rhoddwyd adroddiad am 1,000 o ddigwyddiadau eraill yn ystod pedwar mis cyntaf 2016.
30. Dangosodd data ar droseddau a waethygydd gan hiliaeth a chrefydd y gall y digwyddiadau hyn ddangos cynnydd mawr o gwmpas amser ymosodiadau terfysgol gartref neu dramor. Adlewyrchir y duedd hon hefyd ymhlith cymunedau Mwslimaidd sydd wedi rhoi adroddiadau am gynnydd yn yr ofn a'r tensiwn yn eu cymunedau yn dilyn digwyddiadau o'r fath. Yn 2012, sefydlodd y Llywodraeth Weithgor Traws-lywodraethol yn erbyn Casineb Gwrth-Fwslimaidd, gan ddwyn at ei gilydd aelodau o gymunedau Mwslimaidd i helpu i ymateb i'r broblem.

Tueddfryd rhywiol

31. Cynhaliodd YouGov, gyda chomisiwn gan Stonewall, arolwg gan holi mwy na 2,500 o lesbiaid, pobl hoyw a deurywiol ar draws Prydain yn 2013 i ymchwilio i'w profiadau o droseddau a digwyddiadau casineb homoffobaidd. Canfu bod troseddau a digwyddiadau casineb yn parhau yn fater difrifol ym Mhrydain gydag un o bob chwech o lesbiaid, pobl hoyw a deurywiol yn dioddef trosedd neu ddigwyddiad casineb homoffobaidd dros y tair blynedd flaenorol. Roedd troseddau casineb ar sail tueddfryd rhywiol yn cynrychioli dros un o bob deg o droseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2014/15.

Tueddfryd rhywiol

Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2013/14:	4,584
Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2014/15:	5,597
Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2014/15:	1,240
Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2015/16:	1,384
Deilliannau llwyddiannus yn 2014/15:	1,009
Deilliannau llwyddiannus yn 2015/16:	1,151
Cyfradd gollfarnu yn 2014/15:	81.4%
Cyfradd gollfarnu yn 2015/16:	83.0%
Amcangyfrif Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr:	29,000

Hunaniaeth drawsrywiol

32. Dechreuwyd cofnodi ystadegau troseddau casineb am droseddau casineb yn erbyn pobl drawsrywiol yn 2011/12. Dywedodd Prosiect Troseddau Casineb Sussex ym Mhrifysgol Sussex wrth ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldeb ar gydraddoldeb trawsrywiol:

“Mae troseddau casineb yn cael effaith sylweddol ar emosiynau pobl draws (ofn, pryder a gwylltineb) a’u hymddygiad (osgoi a rhagweithio)... dangosodd astudiaethau eraill bod profiadau pobl draws* o droseddau casineb yn cael eu nodweddu gan lefel uchel o drawma seicolegol.”*

Hunaniaeth drawsrywiol

Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2013/14:	557
Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2014/15:	605
Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2014/15:	37
Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2015/16:	85
Deilliannau llwyddiannus yn 2014/15:	28
Deilliannau llwyddiannus yn 2015/16:	68
Cyfradd gollfarnu yn 2014/15:	75.7%

Cyfradd gollfarnu yn 2015/16:	80.0%
Amcangyfrif Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr:	ddim ar gael ⁴

Anabledd

33. Gwelwyd cynnydd sylweddol o ran rhoi adroddiadau a chofnodi troseddau casineb anabledd ers iddynt gael eu cynnwys mewn polisi cenedlaethol am y tro cyntaf yn 2008. Dengys cofnodion yr heddlu gynnydd o 800 yn y flwyddyn gyntaf i 2,508 yn 2015/16. Roedd troseddau casineb anabledd yn cynrychioli 5% o'r troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2014/15. Mae hyn yn gyferbyniad i CSEW lle'r oedd troseddau casineb anabledd yn cynrychioli traean o'r troseddau casineb.
34. Mae'r diffyg rhoi adroddiadau am droseddau casineb anabledd yn dangos pwysigrwydd sicrhau bod rhagor o ddiodefwyr yn teimlo eu bod yn gallu camu ymlaen. Rhaid i'r heddlu barhau i ddynodi troseddau casineb anabledd yn gywir yn eu harferion cofnodi. Tanlinellwyd sialensiau parhaus lleihau'r niwed a achosir gan droseddau casineb anabledd a'i effaith ar ddiodefwyr gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei archwiliad yn 2011 o gam-drin pobl anabl.⁵

Anabledd

Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2013/14:	2,006
Nifer y troseddau y cafwyd adroddiad amdanynt yn 2014/15:	2,508
Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2014/15:	666
Nifer y troseddau a erlynwyd yn 2015/16:	941
Deilliannau llwyddiannus yn 2014/15:	503
Cyfradd gollfarnu yn 2014/15:	75.5%
Cyfradd gollfarnu yn 2015/16:	75.1%
Amcangyfrif Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr:	70,000

⁴ Nid yw'r data hwn ar gael oherwydd bod rhy ychydig o ymatebwyr trawsrywiol yn CSEW i roi amcangyfrif cywir o lefel y troseddau casineb sy'n effeithio arnynt.

⁵ [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Hidden in Plain Sight, 2011](http://www.equalityhumanrights.com/legal-and-policy/our-legal-work/inquiries-and-assessments/inquirydisability-related-harassment/download-inquiry-report) <http://www.equalityhumanrights.com/legal-and-policy/our-legal-work/inquiries-and-assessments/inquirydisability-related-harassment/download-inquiry-report>

Cynnydd wrth ymdrin â throeddau casineb

35. Canfu asesiad yn 2014 o Gynllun Gweithredu Troeddau Casineb y Llywodraeth flaenorol bod y nifer o adroddiadau am droeddau casineb a dealltwriaeth yr heddlu a chymunedau o effaith troeddau casineb wedi gwella. Roedd y camau gweithredu yn canolbwyntio ar dri phrif faes: atal troeddau casineb; cynyddu'r adroddiadau a'r mynediad at gefnogaeth; a gwella yr ymateb gweithredol i droeddau casineb. Roedd y camau penodol o ganlyniad i'r cynllun yn cynnwys:
- cyhoeddi, am y tro cyntaf, ganfyddiadau manwl o Arolwg Troeddau Cymru a Lloegr am raddfa dioddefwyr troeddau casineb yng Nghymru a Lloegr;
 - gwelliant yn y modd y mae'r heddlu yn cofnodi troeddau casineb – sy'n gofyn i luoedd heddlu gasglu data ar droeddau casineb a gofnodwyd dan y pum ffrwd sy'n cael eu monitro, a chyhoeddi'r data hwnnw fel Ystadegau Swyddogol;
 - ariannu nifer o brosiectau gyda sefydliadau sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda dioddefwyr troeddau casineb dan Gronfa Dioddefwyr a Thystion y Weinyddiaeth Gyfiawnder; a
 - deddfwriaeth ddiwygiedig i gynnig gwell dedfrydu mewn ystod ehangach o droeddau, gan gynnwys, am y tro cyntaf hunaniaeth drawsrywiol dioddefwr fel ffactor waethybol.
36. Roedd yr adroddiad ar gynnydd hefyd yn dynodi nifer o broblemau oedd yn parhau. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i sicrhau bod y Llywodraeth yn gweithredu ymhellach i ymdrin â chasineb ar-lein, gan gynnwys ennyn cyfraniad cwmnïau cyfryngau cymdeithasol a darparwyr gwasanaeth rhynggrwyd. Ym Mai 2015, penododd y Llywodraeth y Farwnes Shields fel y Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Rhynggrwyd, gyda chylch gorchwyl sy'n cynnwys ymdrin ag aflonyddu a chasineb ar-lein.
37. Cyhoeddodd y Llywodraeth ei *Strategaeth Gwrth-derfysgaeth* yn Hydref 2015. Un rhan allweddol o'r strategaeth yw canolbwyntio ar bob ffurf ar eithafiaeth o Islamaidd i neo-Natsiaidd a'r ystod lawn o niweidiau y mae eithafiaeth yn eu creu – gan gynnwys hybu casineb a rhaniadau ymhlith cymunedau. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Troeddau Casineb y Llywodraeth, gan gynnwys gwahanu'r cofnodion troeddau casineb yn ôl gwahanol grefyddau; cefnogaeth i'r grwpiau cymunedol sy'n herio syniadaeth sy'n rhannu pobl a chynyddu'r gefnogaeth i'r gwerthoedd yr ydym yn eu rhannu; a deddfwriaeth newydd i amharu ar weithrediadau'r eithafwyr mwyaf niweidiol yn ein cymunedau.

Cynllun ar gyfer ymdrin â throeddau casineb

38. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn canolbwyntio ar bum maes ar gyfer y camau nesaf i'r Llywodraeth a phartneriaid cymunedol eu cymryd i fynd i'r afael â throeddau casineb:

- **Atal troeddau casineb** trwy ymdrin â'r credoau a'r agweddau a all fod yn sail i droeddau o'r fath. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd atal troeddau casineb rhag digwydd yn y lle cyntaf ac rydym yn ymroddedig i herio'r agweddau hynny a all arwain at wahaniaethu a rhaniadau yn ein cymdeithas.
- **Ymateb i droeddau casineb yn ein cymunedau** gyda'r nod o leihau'r nifer o ddigwyddiadau troeddau casineb. Byddwn yn canolbwyntio ar nifer o leoliadau sydd wedi dod i'r amlwg fel amgylcheddau lle mae'r risg o droeddau casineb yn uchel, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus, yr economi nos a'r rhyngrwyd.
- **Cynyddu'r nifer o adroddiadau am droeddau casineb.** Byddwn yn parhau i weithio i'w gwneud yn haws i'r rhai y mae'r troeddau casineb yn effeithio arnynt i roi adroddiadau gan gynnwys trwy ganolfannau rhoi adroddiadau trydydd parti. Er mwyn rhoi hyder i ddiodefwyr y bydd eu cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i roi cyhoeddusrwydd i lwyddiannau wrth erlyn troeddau casineb.
- **Gwella'r gefnogaeth i ddiodefwyr troeddau casineb.** Dangosodd gwaith ymchwil bod troeddau casineb yn achosi mwy o ofid i ddiodefwyr na throeddau tebyg heb yr un ysgogiad.⁶ Byddwn yn gweithio i sicrhau bod diodefwyr yn cael cefnogaeth amserol ac effeithiol ar adeg rhoi'r adroddiad am y drosedd a thrwy'r system cyfiawnder troseddol.
- **Cynyddu ein dealltwriaeth o droeddau casineb.** Er mwyn gallu ymdrin â throeddau casineb, rhaid i ni ddeall graddfa a natur y broblem. Byddwn yn gwella'r data y mae'r llywodraeth yn ei gasglu ar droeddau casineb ac yn gweithio gydag academyddion ac eraill i wella ein dadansoddiad a'n dealltwriaeth o'r pethau sy'n gyrru troeddau casineb a sut y gall y rhain gael eu trin.

⁶ Iganski P, Lagou S, Hate crimes hurt some more than others: implications for the just sentencing of offenders, *Journal of Interpersonal Violence* 30(10), 2015: td. 1696–1718.

Pennod 4 – Cynllun ar gyfer ymdrin â throeddau casineb

Atal Troseddau Casineb

39. Yr unig ffordd y byddwn yn gallu lleihau troseddau casineb yw ymdrin â'r rhagfarn a'r diffyg goddefgarwch sydd yn ei fwydo. Oni bai ein bod yn gweithio i herio culni ac addysgu pobl ifanc, bydd troseddau casineb yn parhau. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o brosiectau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a llunio perthynas dda rhwng rhai o gefndiroedd gwahanol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau yn ogystal â siarad yn uniongyrchol gyda phobl ifanc i'w grymuso i daclo'r farn a'r safbwyntiau a all arwain at gasineb a rhagfarn. Credwn y bydd yr ymyrraeth gynnar yma yn cael effaith ar leihau'r lefel o gefnogaeth i grwpiau sy'n hybu hiliaeth a ffurfiau eraill ar gasineb a diffyg goddefgarwch.
40. Mae'n hanfodol bod pobl ifanc ac athrawon yn cael yr offer a'r sgiliau cywir i herio casineb a rhagfarn yn ifanc iawn. **Gan adeiladu ar brosiect treialu gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) yn Bradford, bydd yr Adran Addysg (DfE) yn cefnogi rhaglen i baratoi athrawon i gynnal trafodaethau a sgysiau gyda disgyblion ar ystod o wahanol faterion cyfoes anodd.** Dyluniwyd y rhaglen i roi lle i ddisgyblion drafod materion y dydd, lleisio eu pryderon ac ailadrodd yr hyn y maent wedi ei glywed; dylai athrawon wrando a bod yn barod i herio pan fydd angen. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau am eithafiaeth a gwerthoedd sylfaenol a rennir a bydd hefyd yn gyfle i drafod materion yn ymwneud â chydaddoldeb, rhagfarn, troseddau casineb a pholisi tramor. **Bydd DCLG hefyd yn cefnogi Streetwise i weithio gyda phobl ifanc i ymdrin â throeddau casineb gwrth-semitig a gwrth-Fwslimaidd.**
41. Mae darparu deunyddiau addysgol yn rhan bwysig o gefnogi ysgolion i gyflwyno'r gwersi yma i bobl ifanc. Mae Gwasanaeth Eryl y Goron (CPS) wedi cynhyrchu pecyn adnoddau i ysgolion ac athrawon ar droseddau casineb er mwyn helpu athrawon i ymgysylltu â'u disgyblion ar faterion fel casineb a diffyg goddefgarwch. **Bydd y CPS yn adnewyddu'r pecynnau yma i gyd dros y tair blynedd nesaf.**
42. Mae'r Llywodraeth wedi cefnogi Rhaglen Ysgolion Anne Frank, sydd wedi cyrraedd 55,000 o bobl ifanc, gan ddefnyddio negeseuon ingol bywyd a dyddiadur Anne i helpu myfyrwyr i ddeall y difrod y mae rhagfarn a chasineb yn eu creu. Byddwn yn parhau i gefnogi Ymddiriedolaeth Anne Frank i gyflawni ei rhaglen newydd, gan adeiladu ar elfennau cryfaf y Rhaglen Llysgenhadon sy'n bodoli. Byddwn yn ariannu'r rhaglen newydd yn **Llundain a Gorllewin Canolbarth Lloegr i herio rhagfarn a gwahaniaethu ac i ysbrydoli pobl ifanc i ddod yn aelodau cyfrifol o'r gymuned sy'n gweithredu yn gymdeithasol.**

43. Canfu arolwg o 253,755 o blant a phobl ifanc yn Lloegr ym mlynnyddoedd 6, 8 a 10 bod bwlio yn gyffredin, gyda 46% o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael eu bwlio ar ryw adeg pan oeddent yn yr ysgol. Mewn arolwg a gynhaliwyd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) yn 2006 o 34,428 o ddisgyblion ar draws pedwar oedran gwahanol, roedd bron bob un disgybl o gefndir lleiafrifol wedi cael ei sarhau ar lafar ar sail ei ethnigrwydd.⁷ Canfu *The Teachers' Report 2014: Homophobic Bullying in Britain's Schools*, ar sail arolwg gan YouGov i Stonewall, fod naw o bob deg o athrawon ysgol uwchradd yn dweud bod myfyrwyr yn eu hysgolion yn cael eu bwlio, eu haflonyddu neu eu galw yn enwau am fod – neu am gael eu hamgyffred i fod – yn lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol. **Bydd y DfE a Swyddfa Gydraddoldeb y Llywodraeth yn asesu lefel y bwlio gwrth-Fwslimaidd, gwrth-semitig, homoffobaidd ac o fathau eraill mewn ysgolion er mwyn deall yr amgylchiadau, a bydd yn cefnogi prosiectau a rhaglenni ymhellach i leihau'r lefelau o fwlio.**
44. Mae'n hanfodol i ni alluogi sefydliadau sy'n gweithio yn lleol gyda dioddefwyr troseddau casineb i weithio yn fwy effeithiol. **Gyda chefnogaeth y porth i roi adroddiadau am droseddau casineb i'r heddlu, True Vision, sefydliadau fel Sefydliad Sophie Lancaster a'r Ganolfan ac Amgueddfa Holocaust Genedlaethol, bydd DCLG yn hyrwyddo ymwneud â phobl ifanc i leihau gelyniaeth, hybu hawliau dynol a rhannu arfer da ar draws y ffrydiau troseddau casineb.**
45. Er mwyn gwella dealltwriaeth gohebwyr o grwpiau lleiafrifol, **bydd DCLG yn gweithio gyda'r Gymdeithas i Olygyddion, yr Ymddiriedolaeth Cyfryngau a'r Sefydliad Safonau Annibynnol y Wasg (IPSO) i ddiweddarau'r llyfryn 'Reporting Diversity'**, sy'n rhoi cyngor a help ymarferol i ohebwyr am sut i wynebu'r her ac osgoi peryglon a phroblemau rhoi adroddiadau am faterion cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys cymunedau ym mhob ffrwd o droseddau casineb i sicrhau bod y gohebu yn deg.
46. **Bydd DCLG, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r Swyddfa Gartref hefyd yn gweithio gyda IPSO i ddyfeisio hyfforddiant i helpu gohebwyr gael dealltwriaeth well o Islam.**
47. Dwy golofn allweddol i'n Strategaeth Gwrthderfysgaeth yw llunio partneriaeth rhwng pawb sy'n gwrthwynebu eithafiaeth, gan hybu lleisiau cadarnhaol yn erbyn casineb a rhaniadau, a gweithredu i lunio cymunedau mwy cydlyn. I gefnogi hyn **rydym wedi creu cronfa newydd a fydd yn rhoi chefnogaeth mewn da i helpu grwpiau cymunedol sy'n canolbwyntio ar ymdrin â chasineb a rhaniadau i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed**, yn eu cymunedau ac ar-lein. Bydd sefydliadau yn gallu gwneud cais am gyllid i gefnogi rhaglenni newydd sy'n ymdrin â throseddau casineb yn eu hardal, a chynnig gwerthusiad i adolygu'r prosiectau. **Byddwn hefyd yn rhoi grantiau i'r rhai sy'n gweithio mewn cymunedau i herio rhagfarn** a hybu'r gwerthoedd a rennir sy'n clymu ein gwlad gyda'i gilydd.

⁷ DCSF, *Bullying around Racism, Religion and Culture*, 2006, tudalen 37.

Ymateb i droseddau casineb yn ein cymunedau

48. Mae troseddau casineb yn cael effaith ddifrifol ar unigolion a chymunedau. Mae gan bobl hawl i deimlo'n ddiogel wrth fyw eu bywydau o ddydd i ddydd. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol i yrru'r nifer o droseddau casineb i lawr – boed ar y strydoedd, mewn canolfannau cymunedol (gan gynnwys mannau addoli) neu ar-lein.
49. Hybu atebion sy'n cael eu harwain gan y gymuned **byddwn yn ariannu tri phrosiect arddangos cymunedol i archwilio ffyrdd blaengar i gymunedau fedru ymateb i droseddau casineb**. Byddwn yn chwilio am enghreifftiau ar draws gwahanol ffyrdd o droseddau casineb ac mewn gwahanol leoliadau ar draws Cymru a Lloegr. Byddwn yn ceisio gweithredu'r gwersi a ddysgir o'r prosiectau hyn ar draws ein gwaith i ymdrin â phob ffrwd o droseddau casineb pan fydd yn addas.
50. **Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol, gan gynnwys Galop, sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n profi troseddau casineb ar sail tueddfryd rhywiol a hunaniaeth drawsrywiol i ddatblygu adnoddau sy'n bodloni anghenion cymunedau Lesbaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn benodol**. Byddwn yn rhannu arfer da sy'n bodoli, gan gynnwys ar draws y Rhwydwaith Troseddau Casineb LGBT, sy'n cynnwys dros 30 o sefydliadau sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr, ac ar draws asiantaethau cyfiawnder troseddol, fel trwy grŵp troseddau casineb Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.
51. **Byddwn hefyd yn rhannu'r ddogfen safonau ansawdd a ysgrifennwyd gan Galop, yn eu rôl fel prif bartner cyflawni yn y Bartneriaeth Troseddau Casineb LGBT Genedlaethol, sy'n rhoi fframwaith i gynorthwyo sefydliadau i ddynodi materion i'w gwella wrth ymdrin â throseddau casineb, i'n partneriaid cymunedol**. Mae'r prosiect hefyd wedi cynhyrchu adnoddau gwybodaeth a fydd yn cael eu rhoi ar wefan True Vision.
52. Er mwyn helpu'r heddlu ac eraill i ymdrin â throseddau casineb gwrth-semitig a ffurfiau eraill ohono, byddwn yn gweithio gyda'r heddlu i **greu cronfa ddata o symbolau, sloganau a baneri a all fod yn anghyfreithlon oherwydd bod y sefydliadau sydd yn eu defnyddio wedi eu gwahardd neu yn ysgogi casineb**. Bydd DCLG yn arwain at greu'r gronfa ddata hon, a bydd yn cael ei rhannu gyda phartneriaid trwy'r NPCC. Dyma un o'r **argymhellion a wnaed gan y Grŵp Seneddol Traws Bleidiol yn erbyn Gwrth-semitiaeth** yn dilyn ei ymchwiliad (Chwefror 2015) i effaith gwrthdaro Gaza ar gymunedau Iddewig yn y Deyrnas Unedig.
53. **Bydd DCLG hefyd yn parhau i gefnogi'r Gweithgor Gwrth-semitiaeth, y Grŵp Gwaith Casineb Gwrth-Fwslimaidd a'r Grŵp Cyswilt Sipsiwn Teithwyr** i sicrhau bod lleisiau'r cymunedau hynny yn cael eu clywed.
54. Er gwaethaf y cynnydd da ers y Cynllun Gweithredu diwethaf, mae troseddau casineb yn erbyn pobl anabl yn parhau yn her arbennig. **Byddwn yn edrych ar enghreifftiau o'r arfer gorau presennol wrth ymdrin â throseddau casineb anabledd ac yn gweithio gyda sefydliadau partner a'r heddlu i hyrwyddo diogelwch pobl anabl**.

Cyllid diogelwch

55. Cododd cynrychiolwyr o gymunedau crefyddol bryderon am ymosodiadau yn erbyn mosgiau, gudwarau, eglwysi a themlau. Mae'r rhain yn amrywio o graffiti i ymosodiadau llosgi ac yn arwain at ymdeimlad o fod yn fregus. Yn Hydref 2015, gwnaeth y Prif Weinidog ymrwymiad newydd i ymdrin â throseddau casineb gwrth-Fwslimaidd a chyhoeddodd y bydd arian newydd ar gael ar gyfer diogelwch yr holl sefydliadau ffydd, gan gynnwys mosgiau. **Yn 2016, bydd y Swyddfa Gartref yn lansio cynllun £2.4m ar gyfer camau diogelwch rhagweithiol mewn sefydliadau ffydd bregus.**
56. Mae bygythiad penodol a diffiniedig i safleoedd a buddiannau Iddewig yn y Deyrnas Unedig. **Byddwn yn parhau ein hymrwymiad i ddiogelwch ysgolion ffydd annibynnol Iddewig a rhai sy'n cael cymorth y wladwriaeth, synagogau a safleoedd cymunedol Iddewig eraill gyda £13.4m o gyllid yn 2016/17.** Rhoddir y cyllid hwn ar gyfer lleoliadau cymunedol Iddewig trwy grant gan y Swyddfa Gartref sy'n cael ei weinyddu gan yr Ymddiriedolaeth Ddiogelwch Cymunedol (CST).
57. Rydym wedi dynodi tri maes arall lle mae troseddau casineb yn achosi pryder neilltuol i gymunedau a byddwn yn cymryd camau penodol yn y tri: trafndiaeth gyhoeddus, economi'r nos a'r rhyngrwyd.

Troseddau casineb ar drafndiaeth gyhoeddus

58. Cofnododd Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) 1,993 o droseddau casineb wedi eu hysgogi gan hiliaeth ar draws y rheilffyrdd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a threnau tanddaearol Llundain yn 2015, cynnydd o 37% dros y pum mlynedd blaenorol.⁸ Gwelwyd nifer o ddigwyddiadau casineb gwrth-Fwslimaidd amlwg ar drafndiaeth gyhoeddus a wnaeth beri pryder mewn cymunedau. Mae awdurdodau trafndiaeth hefyd wedi nodi bod eu staff yn aml yn dargedau i dramgwyddwyr troseddau casineb.

Cyfaddefodd menyw iddi sarhau menyw Fwslimaidd feichiog ar fws yn Brent, gogledd Llundain, pan aeth fideo o'r digwyddiad yn wyllt dros y rhyngrwyd. Galwodd y fenyw'r ddiodefwaig a'i dwy ffrind yn *"Isis bitches"* a'u cyhuddo o fod â *"bombs up their skirts"* a gwaeddodd *"f*** off back to your own country"*.

Fe wnaeth hefyd fygwth cicio'r ddiodefwaig feichiog yn ei stumog fel y byddai *"never have children again"*. Roedd teithwyr eraill ar y bws yn dystion i'r digwyddiad, gan gynnwys merch ddwyflwydd oed y dramgwyddwraig.

⁸ *The Guardian*, Race hate crimes reported on UK railways rise 37% in five years, 27 Ionawr 2016, ar gael yn: <http://www.theguardian.com/uk-news/2016/jan/27/race-hate-crimes-uk-railways-rise-37-percent-five-years>

Cyflwynodd y fam i dri ei hun i'r heddlu dri diwrnod ar ôl y digwyddiad, ar ôl i aelod o'r cyhoedd roi'r fideo ar-lein. Plediodd yn euog yn Llys Ynadon Hendon o achosi gofid oedd yn cael ei waethygu gan hiliaeth.⁹

59. Targeddu troseddau casineb ar drafnidiaeth gyhoeddus trwy gamau allweddol, **byddwn yn gweithio gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain i sicrhau bod y system bresennol sy'n gadael i deithwyr roi adroddiad am droseddau a digwyddiadau ar y rheilffordd trwy negeseuon testun yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial i roi adroddiadau am droseddau casineb.** Yn y tair blynedd cyntaf ers ei lansio, mae'r system wedi cael ei hysbysebu yn eang ac mae wedi derbyn mwy na 32,500 neges testun. Rydym am sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhoi adroddiad am droseddau casineb trwy'r system hon, a byddwn yn gweithio gyda'r Heddlu Trafnidiaeth i gyfleu'r neges.
60. **Bydd hyn yn cael ei gefnogi trwy ymgyrchoedd hysbysebu a arweinir gan y gymuned ar drafnidiaeth gyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o bob ffrwd o droseddau casineb.** Pan fydd grwpiau cymunedol yn cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, bydd y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a swyddogion DCLG yn cynnig cefnogaeth i ddylunio a thargeddu deunyddiau.
61. **Bydd yr NPCC yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau trafod gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus a grwpiau cymunedol,** i sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn deall y problemau ar drafnidiaeth gyhoeddus; byddant yn creu atebion i ymdrin â'r problemau hyn i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy diogel i bawb.
62. Yn ychwanegol bydd y Swyddfa Gartref a'r Adran Drafnidiaeth yn **gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth lleol i sicrhau bod gyrwyr bysiau ar draws Cymru a Lloegr yn cael yr offer angenrheidiol i herio casineb. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddyd newydd i yrwyr i'w cefnogi pan fyddant yn wynebu troseddau casineb.**

Troseddau casineb yn gysylltiedig ag economi'r nos

63. Yn ystod y degawd diwethaf, mewn tua hanner yr holl ddigwyddiadau treisgar roedd y dioddefwr yn credu bod y troseddwr/wyr dan ddylanwad alcohol. Mae'r gyfran hon yn cynyddu mewn digwyddiadau rhwng dieithriaid, ar fin nos ac yn y nos, ar benwythnosau, ac mewn mannau cyhoeddus.¹⁰ Yn aml mae'r rhai sy'n gweithio yn yr economi nos yn profi sefyllfaoedd anodd, llawn tensiwn wrth ymdrin â chwsmeriaid meddw ac ymosodol, gyda llawer o yrwyr tacsis, gweithwyr bwytai a pherchenogion mannau bwyd i'w gludo i ffwrdd yn teimlo yn arbennig o agored i niwed o aflonyddu hiliol wrth wneud eu gwaith.

“Roeddwn yn gweithio mewn lle bwyd Tsieineaidd ac fe daflwyd wyau ataf. Mae pobl hanner meddw yn dod i mewn o hyd, ac yna maen nhw'n dechrau arni, chi'n gwybod, yn dechrau strancio. Fe allai fod yn dorri gwydrau, torri ffenestri neu sarhad hiliol, pob math.”

⁹ Guardian, Woman in anti-Muslim bus tirade admits racial abuse, 19 Hydref 2015, <https://www.theguardian.com/uk-news/2015/oct/19/woman-anti-muslim-bus-tirade-admits-racial-abuse>

¹⁰ Y Swyddfa Gartref, *Modern Crime Prevention Strategy*, 2016.

64. Mae lluoedd heddlu, gan gynnwys Heddlu Swydd Bedford, wedi gweld nad yw adroddiadau yn cael eu rhoi am ymosodiadau sy'n digwydd yn erbyn gyrwyr tacsis.^{11,12} **Byddwn yn adolygu'r cyfarwyddyd ar drwyddedu tacsis a hyfforddiant i sicrhau bod gyrwyr tacsis yn cael yr hyfforddiant y mae arnynt ei angen i ddynodi troseddau casineb a rhoi adroddiadau amdanynt yn yr economi nos.**
65. Dangosodd astudiaeth y Coleg Plismona i'r defnydd o gamerâu fideo ar y corff gan swyddogion heddlu yn Llundain bod swyddogion yn credu ei fod yn helpu i gasglu tystiolaeth o well ansawdd. **Bydd swyddogion yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref yn adolygu'r defnydd o gamerâu fideo ar y corff gan yr heddlu ac yn ymchwilio i ffyrdd newydd o ddefnyddio'r dechnoleg yma**, i staff yr heddlu a staff sifil yn yr economi nos, i greu rhywbeth i atal troseddau casineb.
66. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn yr economi nos i ymdrin â throseddau casineb. Mae'n bwysig i bobl, boed yn gwsmeriaid neu'n staff, deimlo'n ddiogel. Mae'r prosiect Drinkaware Club Crew yn anelu at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol meddw ymhlith rhai 18 i 24 mlwydd oed a'u cadw yn ddiogel, trwy staff wedi eu hyfforddi'n arbennig sy'n gweithio mewn bariau a chlybiau. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio yn uniongyrchol gyda Drinkaware i sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer y prosiect yn cynnwys gwybodaeth am droseddau casineb, sut i'w adnabod a sut i roi adroddiad amdano. Cyflwynir hyn yn ystod cam nesaf y prosiect, gyda'r potensial i ymestyn yr hyfforddiant i ddeiliaid trwyddedau ar draws Cymru a Lloegr.

Troseddau casineb ar-lein

67. Mae twf y rhyngrwyd wedi cynnig nifer o gyfleoedd i gyfathrebu yn fyd-eang, rhannu gwybodaeth a chyfnewid barn. Ond, mae wedi ei ddefnyddio hefyd gan y rhai sydd am ei ddefnyddio fel offeryn i daenu casineb a thargedu unigolion a chymunedau oherwydd pwy ydynt neu'r hyn y maent yn ei gredu.
68. O'r 801 o ddigwyddiadau casineb gwrth-Fwslimaidd a gofnodwyd gan Tell MAMA yn ystod 2015, roedd 364 ar-lein (73%). Cofnododd CST 159 digwyddiad gwrth-semitig oedd yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar-lein yn 2015, sy'n 17% o'r cyfanswm o 924 o ddigwyddiadau gwrth-semitig a gofnodwyd. Gall y gwahaniaeth yn y cyfrannau a ddangosir yn yr enghreifftiau hyn adlewyrchu dulliau casglu neu adrodd gwahanol neu wahaniaeth yn natur y troseddau casineb yn erbyn y grwpiau hynny.

¹¹ Cylchlythyr Partneriaeth Troseddau Casineb Cyngor Warrington, Gorffennaf 2013, ar gael yn: https://www.warrington.gov.uk/download/downloads/id/5249/hate_crime_newsletter_july_2013.pdf

¹² Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Swydd Bedford, 19 Mawrth 2016: <http://www.bedfordshire.pcc.police.uk/News-andEvents/Archived-News/2016/PR-290.aspx>

69. Dangosodd ymchwil hefyd bod lefelau sylweddol o gam-drin ar-lein ar sail rhyw.¹³ Derbyniodd y Llinell Gymorth 'Revenge Porn' bron i 4,000 o alwadau'r llynedd.¹⁴ Mae'r Llywodraeth yn cymryd cam-drin troseddau casineb ar-lein yn ddifrifol iawn. Mae'r hyn sy'n anghyfreithlon oddi ar y we yn anghyfreithlon ar y we hefyd. Rydym yn ymroddedig i weithio gyda chwmnïau cyfryngau cymdeithasol a darparwyr rhynggrwyd i ymdrin â'r broblem hon.
70. Er mwyn dod o hyd i ffyrdd y gall darparwyr rhynggrwyd a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol helpu i wella'r ymateb i droseddau ar-lein, bydd y Llywodraeth yn galw **seminar weinidogol ar droseddau casineb ar y rhynggrwyd sy'n dwyn grwpiau dioddefwyr, rhanddeiliaid a chynrychiolwyr y diwydiant at ei gilydd**. Bydd hyn yn nodi dull gyda champau gweithredu penodol y cytunir arnynt i leihau'r niwed a achosir gan gasineb ar-lein ac i ymdrin â cham-drin ar-lein.
71. Bydd yr heddlu yn parhau i ddatblygu True Vision – porth troseddau casineb penodedig sy'n rhoi cyfle i ddioddefwyr roi adroddiad am droseddau casineb yn uniongyrchol i'r llu heddlu lleol o'u cartref eu hunain yn ogystal â darparu gwybodaeth i ddioddefwyr a gweithwyr proffesiynol. Derbyniodd hyd at 16,000 o ymweliadau'r mis ac, yn 2014/15, gwnaed mwy na 4,300 o gwynion gan y cyhoedd. Yn benodol, **bydd rhagor o gefnogaeth yn cael ei rhoi i bobl ifanc sydd yn gweld deunydd casineb ar-lein a bydd hysbysebion cyfryngau cymdeithasol wedi eu targedu yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r porth**.
72. Er mwyn cael darlun clir o droseddau ar-lein, gan gynnwys troseddau casineb ar-lein, mae'n ofynnol i'r heddlu yn awr roi lluman i nodi a oes gan drosedd elfen ar-lein. Byddwn yn gweithio gyda lluoedd heddlu i wella'r defnydd o'r llumanau ar-lein yma a fydd, yn y dyfodol yn **rhoi darlun cenedlaethol i ni o lefelau troseddau casineb ar-lein**.
73. Er mwyn ymateb i her troseddau casineb ar-lein, mae'r Coleg Plismona wedi cynnwys **cyfarwyddyd i'r heddlu a phartneriaid ar ymateb i droseddau casineb ar y rhynggrwyd yn ei Strategaeth Plismona Troseddau Casineb Genedlaethol a'i Gyfarwyddyd Gweithredol Troseddau Casineb**.¹⁵ Mae'r cyfarwyddyd hwn wedi cael ei weld neu ei lawr lwytho fwy na 15,000 o weithiau o True Vision, yn ychwanegol at y dogfennau ffisegol a gylchredwyd i asiantaethau unigol.
74. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, **bydd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn cyhoeddi cyfarwyddyd i erlynyddion ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonwyd trwy gyfryngau cymdeithasol**. Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd penodol ar droseddau casineb a defnyddio gorchmynion ategol i atal troseddu pellach. Bydd y CPS yn parhau i fonitro gweithrediad y cyfarwyddyd ac yn ymgynghori ar ei gynnwys a'r diweddariadau a gyhoeddir.

¹³ Bartlett J, Norrie R, Pate, S, Rumpel R, Wibberley S. *Misogyny on Twitter*, DEMOS, Mai 2014, ar gael yn: http://www.demos.co.uk/files/MISOGYNY_ON_TWITTER.pdf

¹⁴ The Independent, Reclaim the Internet campaign to tackle 'colossal' scale of online misogyny, 26 Mai 2016 <http://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/research-reveals-colossal-scale-of-onlinemisogyny-a7049396.html>

¹⁵ Ar gael yn: http://www.report-it.org.uk/strategy_and_guidance

75. Ni fydd gwella ymateb y system cyfiawnder troseddol i droseddau casineb ar-lein yn ddigon. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gydag unigolion, grwpiau cymunedol, y cyfryngau a busnesau i ddatblygu atebion blaengar i ymdrin â chasineb ar-lein, helpu dioddefwyr i roi adroddiad am ymddygiad sarhaus a sicrhau amgylchedd diogel i bawb ar-lein.
76. **Sefydlodd y Llywodraeth weithgor swyddogol y llywodraeth trwy'r Strategaeth Trais Yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) i ymdrin â VAWG ar-lein. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei gydlynu gyda'n gwaith i ymdrin â throseddau casineb ar-lein yn ei holl ffurfiau.** Bydd y grŵp hwn yn mapio'r ymatebion presennol i droseddau casineb ar-lein, yn rhannu gwybodaeth am beth sy'n gweithio ac yn sicrhau bod dulliau'r Llywodraeth o ymdrin â diwydiant yn cael eu cydlynu ac yn cyflawni'r effaith mwyaf a'r canlyniadau gorau.
77. Ar yr un pryd, byddwn yn **parhau i gefnogi gwaith cynlluniau sy'n bodoli i ymdrin â chasineb ar-lein, gan gynnwys trwy'r Gweithgor Cyberhate**, a sefydlwyd gan y Glymblaid Ryng-seneddol i Frwydro yn erbyn Gwrth-semitiaeth¹⁶ er mwyn cysylltu gyda'r diwydiant rhynggrwyd. Llwyddodd y grŵp i dynnu seneddwyr y Deyrnas Unedig, llywodraeth a chynrychiolwyr cymunedol at ei gilydd yn llwyddiannus i weithio gyda nifer o'r cwmnïau mwyaf yn y diwydiant ar lefel weithredol; arweiniodd hyn at nifer o gynlluniau a newidiadau polisi, gan gynnwys cyfarwyddyd arfer gorau.
78. O ganlyniad i'r Strategaeth Gwrthderfysgaeth, mae'r Llywodraeth bresennol wedi sefydlu grŵp sy'n dwyn diwydiant, llywodraeth a'r cyhoedd at ei gilydd i gytuno ar ffyrdd o gyfyngu mynediad at gynnwys terfysgol ac eithafol ar-lein heb amharu ar yr egwyddor o rynggrwyd agored. Dysgwyd gwersi gan yr Internet Watch Foundation (IWF), sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth ymdrin â chynnwys sy'n cam-fanteisio yn rhywiol ar blant ar-lein. Byddwn yn **gweithio gyda'r grŵp hwn i archwilio troseddau casineb ar-lein**, a byddwn yn ei ddefnyddio fel fforwm i weithio gyda diwydiant i ddatblygu dulliau effeithiol o ymdrin â throseddau casineb, yn ogystal ag eithafiaeth.
79. **Byddwn yn rhoi cyllid i'r mudiad No Hate Speech yn y Deyrnas Unedig**, sy'n cynnig cefnogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc i gynnig gwrth-naratif i gasineb ar-lein ac i roi cefnogaeth i ddioddefwyr ac annog pobl i roi adroddiadau i'r cwmnïau rhynggrwyd a'r awdurdodau. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu gweithredu mewn sefyllfaoedd troseddau casineb eraill.
80. **Er mwyn diogelu pobl ifanc ymhellach ar-lein, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau fel Canolfan Rhynggrwyd Ddiogelach y Deyrnas Unedig.** Mae'r ganolfan yn darparu adnoddau addysgol a chodi ymwybyddiaeth i blant, rhieni, gofalwyr ac athrawon, llinell gymorth i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, a llinell gyswllt i roi adroddiad am gynnwys troseddol ar-lein.

¹⁶ Mae'r Glymblaid Ryng-seneddol i Frwydro yn Erbyn Gwrth-semitiaeth (ICCA) yn dwyn at ei gilydd Seneddwyr o bob rhan o'r byd i arwain y frwydr yn erbyn gwrth-semitiaeth trwy'r byd sydd wedi ail godi ei ben. Gweler: www.antisem.org/home

Cynyddu'r nifer o adroddiadau am droseddau casineb

81. Trwy gydol ein hymgyngoriadau gyda dioddefwyr troseddau casineb a'u heiriolwyr, gofynnwyd i ni sicrhau bod holl ddioddefwyr troseddau casineb yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u hannog i roi adroddiadau am droseddau casineb, boed yn sarhad ar lafar neu yn ymosodiad corfforol. Er mwyn annog pobl i roi adroddiadau rhaid i ni ddangos, pan fydd dioddefwr yn rhoi adroddiad am ddigwyddiad neu drosedd, y bydd gweithredu yn digwydd, y bydd y dioddefwr yn cael gwybod am unrhyw gynnydd a phetai'r mater yn mynd i'r llys y bydd yn cael gwybod beth fydd y canlyniad.
82. Dywed llawer o ddioddefwyr nad ydynt yn rhoi adroddiad am ddigwyddiadau i'r heddlu oherwydd nad yw'r heddlu'n cymryd y mater o ddifrif, neu nad yw sarhad ar lafar mor ddifrifol â hynny. Dywedodd llawer o ddioddefwyr hefyd, oherwydd nad ydynt yn gallu adnabod y tramgwyddwr nad yw'n werth rhoi adroddiad i'r heddlu. Gall hyn, yn ei dro, arwain at weld troseddau casineb yn cael eu derbyn gan yr unigolyn y maent yn effeithio arnynt.

Cafwyd dyn o Worthing yn euog o drosedd trefn gyhoeddus drawsffobaidd ar ôl targedu ei ddioddefwraig am fwy na dwy flynedd. Fe'i harestiwyd yn dilyn honiad ei fod wedi sarhau Lucy ar Sheridan Road, Worthing ar lafar, ar 7 Gorffennaf y llynedd.

Esboniodd Lucy yn y llys ei fod wedi dangos ymddygiad tebyg tuag ati ar tua dwsin o achlysuron am tua dwy flynedd a hanner. Dywedodd: *“Y peth anoddaf oedd dod dros y ffaith nad oeddwn yn ymddiried yn yr heddlu a chysylltu â nhw am y mater hwn mewn gwirionedd. Roedd y sarhad wedi mynd yn ormod. Y cwbl oeddwn i am weld oedd hyn yn dod i ben fel y gallwn gerdded i lawr y stryd heb ofni cael fy sarhau, am ddim ond byw fy mywyd. Fe'm synnwyd gan pa mor ddifrifol y cymerwyd y mater, nid dim ond gan yr heddlu, ond gan y llysoedd hefyd. Fe'm cymerwyd o ddifrif o'r dechrau i'r diwedd ac yn awr rwyf yn teimlo yn fwy hyderus wrth roi adroddiad am faterion i'r heddlu.”*

Worthing Herald, 11 Chwefror 2016

Gwella ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac adroddiadau gan drydydd partiön

83. Dangoswyd bod rhoi cyfle i ddioddefwyr roi adroddiad am droseddau casineb heb orfod mynd at yr heddlu yn uniongyrchol – er enghraifft trwy drydydd parti fel elusen leol – yn gwella hygyrchedd y system cyfiawnder troseddol. Mae gweld trydydd parti yn rhoi adroddiad yn helpu'r dioddefwyr i deimlo yn gyfforddus wrth gamu ymlaen i dderbyn y gefnogaeth angenrheidiol. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i roi adroddiad trwy sianeli gwahanol – gan gynnwys wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein. **Byddwn yn annog adroddiadau gan drydydd partiön trwy gyfathrebiadau wedi eu targedu a hysbysebu True Vision, wedi eu hanelu at y cymunedau sydd â'r cyfraddau isaf o ran rhoi adroddiadau. Byddwn hefyd yn rhoi cyngor i ganolfannau adrodd a sefydlu safonau arfer gorau i ganolfannau adrodd, a fydd ar gael ar-lein.**

84. Dangosodd arolwg o ganolfannau adrodd trydydd parti yn 2014 bod gan amrywiaeth eang o leoliadau gyfleusterau ar gyfer rhoi adroddiadau am droseddau casineb. Roedd y rhain yn amrywio o swyddfeydd llywodraeth leol a llyfrgelloedd i orsafoedd tân a sefydliadau cymunedol. Er mwyn parhau i hybu amrywiaeth o ganolfannau adrodd, **byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth i ddynodi lleoliadau eraill, yn y sector cyhoeddus a thu hwnt iddo, lle gellid sicrhau bod adrodd gan drydydd parti ar gael.**
85. Gall canolfannau adrodd trydydd parti fod yn arbennig o bwysig i bobl anabl roi adroddiad am droseddau casineb mewn lleoliadau sy'n hygyrch iddyn nhw. Byddwn yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ymhlith pobl anabl a **chynyddu argaeledd canolfannau adrodd trydydd parti, yn arbennig mewn lleoliadau a thrwy wasanaethau a ddefnyddir gan bobl anabl.**
86. Yn aml mae'r bobl hynny sydd agosaf at bobl anabl mewn sefyllfa dda i ddynodi a herio troseddau casineb. **Bydd yr heddlu yn arwain gwaith gyda phartneriaid a grwpiau pobl anabl i ddatblygu adnoddau a fwriadwyd i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ymhlith gofalwyr a theuluoedd pobl anabl i'w hannog i roi adroddiadau.**
87. Byddwn yn gweithredu i wella ymwybyddiaeth a rhoi adroddiadau ar draws pob ffrwd o droseddau casineb, yn arbennig pan fydd ymwybyddiaeth yn brin am yr hyn sy'n cyfateb i droseddau casineb a beth all pobl ei wneud amdano. Byddwn yn **gweithio gyda grwpiau cymunedol sy'n cynrychioli cymunedau Mwslimaidd a Christnogol i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a sut y gellir rhoi adroddiad amdano.** Bydd hyn yn cynnwys ymweliadau i fannau addoli a grwpiau cymunedol yn ogystal ag ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol wedi eu targedu.

Roedd honiadau bod pedwar o ddynion wedi ymosod ar ddyn ifanc 17 oed am ei fod yn Gristion o argyhoeddiad. Rhwng Gorffennaf 2014 a Mai 2015 roeddent wedi ymosod ar y dioddefwr, gan gynnwys ymosod arno gydag erosol ar dân, tapio dymi ar ei geg, ei glymu mewn cadair, ei fygwth ar gyfryngau cymdeithasol a'i glymu wrth groes. Mae pedwar o ddynion yn y llys ar hyn o bryd am droseddau casineb gwrth-Gristnogol.

National Churchwatch

88. Adroddodd rhanddeiliaid bod pobl Iddewig o'r gymuned Charedi yn llai tebygol na rhannau eraill o'r gymuned Iddewig o roi adroddiadau am droseddau casineb i'r awdurdodau na'n partneriaid fel y CST. **Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned Charedi i gynyddu ymwybyddiaeth, addysgu pobl ifanc yn y gymuned o ran beth sy'n cyfateb i droseddau casineb ac yn eu hannog i roi adroddiadau, gan gynnwys cefnogi grwpiau ieuenctid gyda rhaglen addysg ar yr hyn sy'n cyfateb i droseddau casineb a sut i roi adroddiad amdanynt.**
89. Yn ystod ein hymgyngoriad, tanlinellodd grwpiau cymunedol a lluoedd heddlu lleol ddwy gymuned arall sy'n wynebu rhwystrau rhag rhoi adroddiad am droseddau casineb; y cymunedau Sipsi, Teithwyr a Roma, a cheiswyr lloches a ffoaduriaid. **Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sydd eisoes yn bresennol yn y cymunedau hynny i**

sicrhau bod pawb yn cael y cyfle a'r wybodaeth angenrheidiol i roi adroddiad am droseddau casineb. Bydd hyn yn cynnwys helpu i sefydlu canolfannau adrodd trydydd parti pan nad ydynt yn bodoli a helpu i'w hybu lle maent yn bodoli.

90. Mae Kick It Out wedi gweithio gyda CST a Maccabi GB i roi adroddiadau am wrth-semitiaeth mewn pêl-droed ac mae wedi anfon cyfarwyddyd i'r holl glybiau proffesiynol a'r stadia. **Byddwn yn gweithio gyda Kick It Out i ddatblygu canllaw tebyg ar gasineb gwrth-Fwslimaidd a hefyd ar gynlluniau sy'n gysylltiedig â throseddau casineb LGB&T, gan gynnwys homoffobia, deuffobia a thrawsffobia.**
91. Dywedodd grwpiau cymunedol wrthym na fydd rhai pobl yn rhoi adroddiad am droseddau casineb oherwydd eu bod yn credu mai bychan iawn yw'r cyfle y bydd collfarn. Ond, dengys ystadegau'r CPS bod cyfraddau collfarnu ar gyfer troseddau casineb yn uchel o'u cymharu â throseddau tebyg heb y ffactor ysgogol. Mae'r CPS yn ymroddedig i gefnogi ymdrechion i godi ymwybyddiaeth a chynyddu hyder wrth roi adroddiad am droseddau casineb ar draws yr holl gymunedau. Mae canllawiau yn disgrifio beth yw troseddau casineb a beth i'w wneud amdanynt yn cael eu paratoi. Bydd y canllawiau byr yma yn helpu i roi gwybodaeth i unigolion a chynghorwyr gyda golwg, yn y pen draw, ar gynyddu'r nifer o adroddiadau.
92. Ar hyn o bryd mae ein Gweithgor Traws-lywodraethol ar Wrth-semitiaeth yn gweithio gyda'r heddlu ac erlynyddion i sicrhau bod arestladau a cholffarnau yn ymwneud â gwrth-semitiaeth yn cael cyhoeddusrwydd er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau Iddewig bod y llywodraeth yn cymryd y mater o ddifrif. **Mae'r CPS yn ymroddedig i ddatblygu strategaeth gyfathrebu troseddau casineb fydd yn gwella'r cyhoeddusrwydd am gollfarnau llwyddiannus ar gyfer pob ffrwd o droseddau casineb,** gan gynnig sicrwydd i gymunedau bod troseddau casineb yn cael eu cymryd o ddifrif.

Dedfrydwyd Saul Nyland, 25 oed, o Whitworth, ger Rochdale, i chwe wythnos yn y carchar ar ôl pledio yn euog i ddau gyfrif o aflonyddu yn Llys Ynadon Lerpwl. Ychwanegwyd pythefnos ychwanegol at ei dymor yn y carchar oherwydd bod yr achos wedi ei erlyn fel trosedd casineb.

Defnyddiodd gyfryngau cymdeithasol i boeni ei ddioddefwr 31 oed, oedd â nam difrifol ar ei leferydd a rhai anawsterau corfforol oherwydd damwain yn blentyn.

Mewn datganiad personol i'r llys, dywedodd y dioddefwr bod y sarhad yn *"difetha ei fywyd"* ac yn effeithio ar ei berthynas. Dywedodd hefyd ei fod wedi stopio mynd allan oherwydd y dirmyg.

Dywedodd Lionel Cope, o Wasanaeth Erlyn y Goron Glannau Mersi Swydd Gaer, ar ôl y gwrandawriad: *"Targedodd Nyland y dioddefwr a'i aflonyddu oherwydd ei anabledd."*

Ychwanegodd: *"Ni fyddwn yn goddef troseddau casineb – maent yn faleisus, yn creu ofn ac yn difetha bywydau."*

Manchester Evening News, 28 Ionawr 2016

Gwella ymateb yr heddlu i droseddau casineb

93. Er bod y data y mae'r heddlu yn ei ddarparu ar droseddau casineb yn gwella, mae rhai bylchau yn ein gwybodaeth, er enghraifft am gymunedau penodol sy'n cael eu targedu. O Ebrill 2016, **mae lluoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi dechrau gwahanu data am droseddau casineb ar sail crefydd** er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth, helpu lluoedd i ymdrin â throseddau casineb a dwyn y tramgwyddwyr o flaen eu gwell. Bydd yr Arweinydd Plismona Cenedlaethol yn cynnig cyfarwyddyd i'r holl luoedd i sicrhau bod hyn yn digwydd.
94. Cyn i ystadegau swyddogol gael eu cyhoeddi, **bydd yr Arweinydd Plismona Cenedlaethol yn cynnal adolygiad ol-syllol o ddata troseddau casineb ar sail crefydd o 2015/16**, ar sail y wybodaeth sydd ar gael mewn ffeiliau achos, i roi gwaelodlin ar gyfer y ffigyrau fel y maent cyn i'r cofnodi wella.
95. Mae rhai lluoedd heddlu wedi cynnal Treialon Cofnodi Rhagweithiol, lle mae troseddau yn erbyn pobl anabl yn cael eu hystyried yn droseddau casineb yn awtomatig, oni bai bod tystiolaeth i brofi fel arall. **Bydd yr Arweinydd Plismona Cenedlaethol yn asesu'r cynlluniau treialu yma i weld a oes unrhyw beth i'w ddysgu a fydd yn cynyddu'r cofnodi ar droseddau casineb anabled.**
96. Dechreuodd yr Arweinydd Plismona Cenedlaethol a'r Coleg Plismona **ddynodi anghenion hyfforddi i swyddogion a fydd yn arwain at well dealltwriaeth a chofnodi ar droseddau casineb. Yna byddant yn llunio pecyn hyfforddi ar ôl gorffen yr adolygiad.**
97. Mae grwpiau cymunedol wedi esbonio bod dioddefwyr yn aml yn teimlo yn fwy hyderus yn ymateb yr heddlu pan fydd swyddog cyswllt troseddau casineb ar gael. **Bydd yr Arweinydd Plismona Cenedlaethol ar droseddau casineb yn adolygu lleoliad a nifer y swyddogion heddlu troseddau casineb arbenigol ar draws Cymru a Lloegr i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i'r cyhoedd.**
98. **Bydd DCLG yn gweithio gyda phartneriaid i gynhyrchu a dosbarthu fersiwn wedi ei diweddarau o *Police Officer's Guide to the Holocaust* i'w rannu i'r holl weithwyr cyfiawnder troseddol proffesiynol.** Bydd hwn yn rhoi cyfarwyddyd a gwybodaeth ar sut y gall casineb ddwysau tensiynau ac arwain at droseddau.
99. Systemau TG gwahanol ar draws y system cyfiawnder troseddol – o'r Gwasanaeth Heddlu i'r CPS i'r llysoedd i garchardai – wedi golygu y gall y systemau profi anawsterau wrth rannu gwybodaeth, gan y gall yr hyn sy'n cael ei lumanu ar un system beidio â chael ei lumanu wrth gael ei drosglwyddo i system arall. **Bydd systemau TG newydd sy'n cael eu datblygu ar draws y system cyfiawnder troseddol yn galluogi'r llywodraeth, yr heddlu, y CPS a'r system lysoedd i rannu gwybodaeth i olrhain troseddwr troseddau casineb fel bod data yn cael ei ddarparu o'r cyhuddiad gwreiddiol trwy'r llysoedd i'r system reoli troseddwr.**
100. Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n cyflawni troseddau casineb yn cael eu dwyn o flaen eu gwell mewn modd cyson a theg. Bydd y **CPS yn adnewyddu ei bolisi a'i gyfarwyddyd cyfreithiol i erlynyddion ar droseddau casineb a waethygyd gan hiliaeth a chrefydd.**

Gwella'r gefnogaeth i ddiodefwyr troseddau casineb

101. Dangosodd Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW) bod diodefwyr troseddau casineb yn llai tebygol o fod yn fodlon ar y modd y gwnaeth yr heddlu drin y digwyddiad, 52% ohonynt yn fodlon iawn neu eithaf bodlon mewn cymhariaeth â 73% ar gyfer troseddau yn gyffredinol.
102. Rydym yn gwybod bod troseddau casineb yn cael effaith anghymesur ar ddiodefwyr. Dangosodd gwaith ymchwil bod diodefwyr yn teimlo mwy o drawma oherwydd troseddau casineb na throseddau cyfatebol heb ysgogiad o'r fath.¹⁷ Mae angen i ni sicrhau bod diodefwyr yn cael cefnogaeth amserol ac effeithiol ar adeg y drosedd ac wedyn.
103. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub ar draws Cymru a Lloegr eisoes yn cefnogi diodefwyr troseddau casineb, o godi ymwybyddiaeth ac adrodd trydydd parti hyd at ymwybyddiaeth o gynnu tanau a gwasanaethau atal. Fel rhan o'u strategaethau atal, bydd, y **Swyddfa Gartref yn gweithio gyda Gwasanaethau Tân ac Achub i ddeall pa rôl y gallant ei chwarae wrth ddynodi diodefwyr a throseddau troseddau casineb a pha gamau ymarferol y gellir eu cymryd i sicrhau, pan fyddant yn cael eu dynodi, na fydd y materion yma yn mynd heb gael sylw.**
104. Sefydlodd y bartneriaeth amlasiantaethol CATCH (Cynghrair Gymunedol i Drechu Casineb), dan arweiniad Galop, gan ymgorffori grwpiau sy'n gweithio ar draws y ffrydiau troseddau casineb, gynllun treialu troseddau casineb yn Llundain i helpu diodefwyr trwy'r broses o roi adroddiad am droseddau casineb ac yna dilyn hynny trwy'r system cyfiawnder troseddol. **Bydd yr heddlu a'r llywodraeth yn gweithio gyda CATCH i sefydlu rôl eiriolaeth troseddau casineb safonol a sicrhau bod diodefwyr yn cael eu cyfeirio at yr asiantaethau allanol statudol a gwirfoddol cywir ar yr adeg gywir.**
105. Nododd Arolwg Bodlonrwydd Diodefwyr a Thystion y CPS, a gyhoeddwyd ym Medi 2015, bod diodefwyr troseddau casineb yn llai tebygol o fod yn fodlon gyda'r cyhuddiadau terfynol na'r cyfartaledd (64% mewn cymhariaeth â 66%) ac yn fwy tebygol o ddweud nad oeddynt wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau cefnogi diodefwyr ond y byddent wedi hoffi cael hynny (21% mewn cymhariaeth ag 11%). Yn fwy cadarnhaol, roedd diodefwyr troseddau casineb yn fwy tebygol o fod yn fodlon bod y CPS wedi ystyried eu hanghenion (71% mewn cymhariaeth â 61%) ac yn fwy tebygol o fod yn fodlon eu bod yn cael gwybodaeth trwy gydol y cyfnod (69% mewn cymhariaeth â 63%). **Bydd y CPS yn cynnal Arolwg Diodefwyr a Thystion arall i sicrhau ei fod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddiodefwyr.**
106. **Yn ychwanegol bydd y CPS yn sicrhau bod llais y diodefwyr yn cael ei glywed trwy wella'r defnydd o Ddatganiadau Personol Diodefwyr.** Nid yn unig mae troseddau casineb yn cael effaith ar ddiodefwyr unigol, ond gall hefyd arwain at ymdeimlad cryfach o densiwn, unigrwydd neu ofn mewn cymunedau. Er mwyn

¹⁷ Ignaski P, Lagou S, Hate crimes hurt some more than others: implications for the just sentencing of offenders, *Journal of Interpersonal Violence* 30(10), 2015: td. 1696–1718.

adlewyrchu hyn, **bydd y CPS yn cynhyrchu cyfarwyddyd ar ddatganiadau effaith cymunedol troseddau casineb**, i sicrhau bod cymunedau yn cael dweud eu dweud ar y ffordd y mae troseddau casineb wedi effeithio arnynt.

107. Bydd y CPS hefyd yn gweithio i wella profiad tystion yn y llys. Bydd yn **cynnal adolygiad ar y cyd, gyda'r heddlu, o Unedau Gofal Tystion, a bydd yn mabwysiadu cyfarwyddyd newydd i erlynyddion – ‘Siarad â Thystion yn y Llys’**.
108. Gall pobl anabl sy'n ceisio cael mynediad at y system cyfiawnder troseddol wynebu sialensiau penodol. Er mwyn helpu i ymdrin â hyn, bydd y CPS yn **cyhoeddi datganiad polisi yn ymdrin â throseddau casineb yn erbyn pobl anabl**, ac yn ystyried ei oblygiadau i'r holl gyfarwyddyd cyfreithiol perthnasol. Bydd hyn yn nodi yn gyhoeddus y safonau gwasanaeth y gall yr holl bobl anabl sy'n ddiodefswyr neu'n dystion eu disgwyl pan fyddant yn ceisio erlyniad ac yn dod i'r llys.
109. Er mwyn gwella'r gefnogaeth a roddir i erlynyddion wrth ddynodi ac erlyn troseddau casineb, bydd y CPS yn **adnewyddu'r polisi a'r cyfarwyddyd cyfreithiol ar droseddau homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a throseddau sy'n cael eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd**, gan roi mwy o enghreifftiau i'w defnyddio ar Ganolfan Wybodaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron.
110. Mae'r Llywodraeth yn parhau i ystyried yr argymhellion yn ofalus o adolygiad Comisiwn y Gyfraith i ddeddfwriaeth troseddau casineb, *Hate Crime: Should the Current Offences be Extended?* Y prif argymhelliad oedd y dylid cynnal adolygiad llawn o ddeddfrydu a throseddau wedi eu gwaethygu. Gwnaeth Comisiwn y Gyfraith argymhellion am wella'r modd y gweithredir deddfrydau wedi eu gwaethygu, ac na ddylid ehangu troseddau 'ysgogi' casineb. Os bydd adolygiad llawn yn cael ei gynnal, argymhellodd y Comisiwn ymestyn troseddau a waethygyd i gynnwys gelyniaeth ar sail anabledd, tueddfryd rhywiol a hunaniaeth trawsrywiol yn ogystal â gelyniaeth ar sail hil a chrefydd. Mae'r Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldeb hefyd wedi gwneud argymhellion ar ymestyn deddfwriaeth; bydd y Llywodraeth yn ystyried y rhain.
111. Mae'r Grŵp Traws-lywodraethol ar Wrth-semitiaeth yn gweithio gyda'r heddlu ac erlynyddion i sicrhau bod arestiadau a cholffarnau yn gysylltiedig â gwrth-semitiaeth yn cael eu cyhoeddi er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau Iddewig ein bod yn cymryd y mater hwn o ddifrif.
112. Byddwn yn parhau i **weithio gyda Chynghorau Cydraddoldeb Hiliol lleol i gryfhau llais diodefswyr ac eiriolwyr yn erbyn troseddau casineb**, ac i sicrhau bod eu barn yn cael ei ystyried gan gyrrff lleol a chenedlaethol.

Cynyddu ein dealltwriaeth o droseddau casineb

113. Dim ond os byddwn yn deall eu hachos a'u heffaith y gallwn ymdrin â throseddau casineb. Rydym eisoes yn ymwneud ag academyddion am ymchwil i droseddau casineb trwy'r Rhwydwaith Rhyngwladol Astudiaethau Casineb a thrwy astudiaethau ymchwil unigol sydd wedi digwydd. Trwy wneud hyn, rydym wedi dynodi bylchau yn ein

gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng grwpiau sy'n hybu casineb hiliol ac am ysgogiad y tramgwyddwyr.

114. Gan fod cynnydd yn ansawdd a maint y data ar droseddau casineb, mae mwy o wybodaeth y gallwn geisio ei chael ohono. Byddwn yn gweithio gyda chonsortium dan arweiniad Prifysgol Sussex a'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan i ddadansoddi data ar droseddau casineb a gofnodwyd i ddynodi tueddiadau. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei rannu ar draws ardaloedd heddlu.
115. Wrth i'r dealltwriaeth o droseddau casineb gynyddu, mae'n dod hyd yn oed yn fwy pwysig i swyddogion ar draws y llywodraeth i ymwneud â'r rhai sy'n gweithio ar ymchwil i adeiladu'r dystiolaeth ar gyfer ymyraethau polisi. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r berthynas rhwng y llywodraeth, academyddion a grwpiau cymunedol i ddynodi ac annog cyfleoedd i gydweithio. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Rhwydwaith Rhyngwladol Astudiaethau Casineb sydd eisoes wedi cychwyn ymchwil gwerthfawr yn y maes hwn. Trwy'r gwaith hwn, byddwn yn deall natur troseddau casineb anabledd yn well, gan gynnwys ffactorau fel unigrwydd, statws preswyllo, tlodi, addysg a gwaith.
116. Rydym eisoes wedi cynnig cefnogaeth arbenigol a dealltwriaeth i ymchwilwyr sy'n ymchwilio i droseddau casineb. Byddwn yn cefnogi ymchwil i ysgogiad troseddwyr ymhellach, gan weithio gydag academyddion i gynyddu ein dealltwriaeth o dramgwyddwyr a'u rhesymau dros ymwneud â gweithgareddau casineb. Byddwn yn cefnogi ymchwil newydd i'r berthynas rhwng casineb ar-lein a throseddau casineb mewn cymunedau.
117. Yn ogystal ag ymchwil academaidd, rydym yn gwybod bod gwaith yn cael ei wneud gan grwpiau cymunedol wrth ymchwilio i droseddau casineb. Bydd DCLG yn gweithio gyda'r grwpiau hynny i gysylltu ag ymchwil mewn meysydd fel casineb yn erbyn pobl sy'n newid eu crefydd a throseddau casineb gwrth-Gristnogol.
118. Mae'r Uned Dadansoddi Eithafiaeth yn cynnal ymchwil eang ar amrywiaeth o feysydd o ran eithafiaeth, gan gynnwys grwpiau ar y dde eithafol sy'n ceisio cymell casineb hiliol a chrefyddol. Bydd llunwyr polisi yn defnyddio'r ymchwil yma, ac yn comisiynu rhagor o waith, i gynyddu ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng grwpiau neo-Natsiaidd ac eithafol ar y dde ar draws Ewrop. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut y mae grwpiau o'r fath yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi ei gilydd i hybu casineb a meithrin anhrefn sifil.

Atodiad A – Beth yw troseddau casineb?

Deddfwriaeth sy'n bodoli

Troseddau wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd

Mae'r troseddau yma wedi eu cyfyngu i bedwar grŵp o droseddau - ymosodiadau, difrod troseddol, mân droseddau trefn gyhoeddus ac aflonyddu.

Troseddau ysgogi

Mae'r troseddau yma yn cynnwys ysgogi troseddau casineb ar sail hil, crefydd neu dueddfryd rhywiol.

Yn ychwanegol at yr uchod mae trosedd benodol o Siantio Hiliol lle mae Deddf (Troseddau) Pêl-droed 1991 yn ei gwneud yn drosedd i ymwneud neu gymryd rhan mewn siantio o natur anweddus neu hiliol mewn gêm bêl-droed ddynodedig

Deddfwriaeth dedfrydu cryfach

Mae'r darpariaethau dedfrydu cryfach yn cael eu darparu trwy Adrannau 145 a 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mae Adran 145 yn ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd ystyried casineb hiliol neu grefyddol fel ffactor waethygol wrth benderfynu ar y ddedfryd am unrhyw drosedd (nad yw wedi ei dynodi yn drosedd a waethygydd gan hiliaeth neu grefydd fel yr amlinellir uchod). Mae Adran 146 yn cael yr un effaith o ran tueddfryd rhywiol, anabledd neu drawsrywioldeb.

Mewn achosion pan na fydd yr erlyniad yn gallu profi bod y troseddwr wedi cael ei gymell gan gasineb tuag at hil, crefydd, tueddfryd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsrywiol unigolyn (gwirioneddol neu a amgyffredir), rhaid i'r llys drin y ffaith honno fel ffactor sy'n gwaethygu.

Roedd *Hate Crime Operational Guidance*: y Coleg Plismona yn rhannu diffiniadau a sefydlwyd gan y CPS a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Teitl	Diffiniad	Pynciau a gynhwysir
Ysgogi casineb	Cymerir bod digwyddiadau a throseddau casineb yn golygu unrhyw drosedd neu ddigwyddiad pan fydd gelyniaeth neu ragfarn y tramgwyddwr yn erbyn grŵp y gellir ei ddynodi o bobl yn ffactor wrth bennu pwy sy'n cael ei dargedu.	Mae hwn yn ddiffiniad eang a chynhwysol. Nid oes raid i ddioddefwr fod yn aelod o'r grŵp. Yn wir, gall unrhyw un fod yn ddioddefwr troseddau casineb.

<p>Digwyddiad casineb</p>	<p>Unrhyw ddigwyddiad nad yw'n droseddol sy'n cael ei amgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail hil yr unigolyn neu'r hil a amgyffredir, neu</p> <p>Unrhyw ddigwyddiad nad yw'n droseddol sy'n cael ei amgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail crefydd yr unigolyn neu'r grefydd a amgyffredir, neu</p> <p>Unrhyw ddigwyddiad nad yw'n droseddol sy'n cael ei amgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail tueddfryd rhywiol yr unigolyn neu'r dueddfryd rhywiol a amgyffredir, neu</p> <p>Unrhyw ddigwyddiad nad yw'n droseddol sy'n cael ei amgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail anabledd yr unigolyn neu'r anabledd a amgyffredir, neu</p> <p>Unrhyw ddigwyddiad nad yw'n droseddol sy'n cael ei amgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn unigolyn sy'n drawsrywiol neu sy'n cael ei amgyffred i fod yn drawsrywiol.</p>	<p>Unrhyw grŵp hiliol neu gefndir ethnig neu gefndir cenedlaethol, gan gynnwys gwledydd yn y Deyrnas Unedig, a grwpiau Sipsiwn a Theithwyr.</p> <p>Unrhyw grŵp crefyddol, gan gynnwys y rhai sydd heb ffydd.</p> <p>Tueddfryd rhywiol unrhyw unigolyn.</p> <p>Unrhyw anabledd gan gynnwys anabledd corfforol, anabledd dysgu ac iechyd meddwl.</p> <p>Pobl sy'n drawsrywiol, drawsryweddol, trawswisgo a'r rhai sy'n meddu tystysgrif cydnabod rhywedd dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004.</p>
---------------------------	---	--

<p>Troseddau casineb</p>	<p>Trosedd gasineb yw unrhyw drosedd sy'n cael ei hamgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail hil yr unigolyn neu'r hil a amgyffredir, neu</p> <p>Unrhyw drosedd sy'n cael ei hamgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail crefydd yr unigolyn neu'r grefydd a amgyffredir, neu</p> <p>Unrhyw drosedd sy'n cael ei hamgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail tueddfryd rhywiol yr unigolyn neu'r dueddfryd rhywiol a amgyffredir, neu</p> <p>Unrhyw drosedd sy'n cael ei hamgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail anabledd yr unigolyn neu'r anabledd a amgyffredir, neu</p> <p>Unrhyw drosedd sy'n cael ei hamgyffred, gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, i fod wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn unigolyn sy'n drawsrywiol neu sy'n cael ei amgyffred i fod yn drawsrywiol.</p>	<p>Unrhyw grŵp hiliol neu gefndir ethnig neu gefndir cenedlaethol, gan gynnwys gwledydd yn y Deyrnas Unedig, a grwpiau Sipsiwn a Theithwyr.</p> <p>Unrhyw grŵp crefyddol, gan gynnwys y rhai sydd heb ffydd.</p> <p>Tueddfryd rhywiol unrhyw unigolyn.</p> <p>Unrhyw anabledd gan gynnwys anabledd corfforol, anabledd dysgu ac iechyd meddwl.</p> <p>Pobl sy'n drawsrywiol, drawsryweddol, trawswisgo a'r rhai sy'n meddu tystysgrif cydnabod rhywedd dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004.</p>
<p>Erlyniad trosedd casineb</p>	<p>Erlyniad trosedd casineb yw unrhyw drosedd casineb sydd wedi ei chyhuddo ar ffurf wedi ei waethygu neu pan fydd yr erlynydd wedi asesu bod digon o dystiolaeth o'r elfen elyniaethus i'w chyflwyno ger bron y llys pan fydd y troseddwr yn cael ei ddeddfrydu.</p>	

